



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Lleihau gwrthdaro teuluol**

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar  
ddiwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru

Ebrill 2019

CP 58



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Lleihau gwrthdaro teuluol**

Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r  
gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ebrill 2019



© **Hawlfraint y Goron 2019**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn at <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn [Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk](mailto:Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-1043-8

CCS0219600162          04/19

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## Cynnwys

Rhagair	3
Crynodeb Gweithredol	5
Cyflwyniad a manylion cyswllt	8
Cefndir	9
Crynodeb o'r gyfraith bresennol	12
Y dull diwygio	17
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	19
Ymateb y Llywodraeth	24
Egwyddorion yr ymgynghoriad	40
Atodiad A: Crynodeb manwl o'r ymatebion yn ôl cwestiwn	41
Atodiad B: Rhestr yr ymatebwyr	52

---



## Rhagair



Mae ysgariad yn ddigwyddiad anhapus ym mywydau gormod o gyplau. Pan mae yn digwydd, mae'n cael effeithiau pellgyrhaeddol ar deuluoedd ac yn enwedig ar blant – gall y canlyniadau lunio eu hymagwedd eu hunain tuag at berthnasau, priodas a phartneriaethau sifil yn eu bywydau fel oedolyn. Rwyf o'r farn bod yn rhaid i ni wneud popeth y gallwn ni i ailadeiladu perthnasau cyn eu bod yn fethiant anadferadwy. Fodd bynnag, os yw cwpwl wedi cymryd y penderfyniad i wahanu, dylai'r gyfraith eu cefnogi a'u galluogi

i gael datrysiad clir sy'n galluogi pawb i ailadeiladu eu bywydau. Yr hyn na ddylai'r gyfraith ei wneud yw creu mwy o ofid – un ai trwy orfodi cyplau i barhau i fod ynghlwm yn gyfreithiol yn erbyn eu hewyllys neu drwy eu cymell i ail-fyw'r elfennau anoddaf o'u perthynas. Am y rheswm hwn, rwy'n credu bod angen diwygio'r gyfraith bresennol ar frys i adlewyrchu bywyd fel y mae'n cael ei fyw ac i sicrhau canlyniadau gwell i'r rheini yr effeithir arnynt. Mae hyn yn cynnwys, lle mae'n bosibl, helpu i sicrhau bod mwy o berthnasau'n cael eu harbed cyn eu bod yn cael eu terfynu'n gyfreithiol.

Wrth ystyried sut i gyflawni hyn, rydym wedi gwrandao ar amrywiaeth eang o sylwadau trwy'r ymgynghoriad. Rwyf wedi ystyried yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud a hefyd ar yr achos ysgubol dros newid. Mae hanner canrif wedi pasio ers i Ddeddf Diwygio Ysgariad 1969 greu'r gyfraith sydd gennym ar hyn o bryd. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r hyn sydd yn dda mewn cyfraith ysgaru ac yn cael gwared ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn rhwystr i ddatrys anawsterau, pan, yn anffodus, dyw perthnasau ddim yn gweithio ac yn galw am gael ei therfynu mewn dull trefnus a chyfreithiol. Rydym am gyflwyno newidiadau fydd yn lleihau gwrthdaro teuluol ac yn cynyddu cydweithredu, yn enwedig pan mae dyfodol plant yn y fantol.

Dyw'r diwygiadau y mae'r Llywodraeth yn eu cynnig ddim yn gwneud ysgariad yn haws. Bydd ysgariad bob amser yn un o'r penderfyniadau anoddaf y bydd unrhyw un yn gorfod ei wneud. Mae ysgariad yn creu effeithiau pellgyrhaeddol ar blant, ar y teulu ehangach ac ar berthnasau eraill. Ni all unrhyw gyfraith gael gwared ar wrthdaro mewn sefyllfa pan y crëir cynnwrf sylweddol i'r unigolyn ac i'r teulu. Yr hyn y mae'r gyfraith yn gallu ei wneud yw lleihau'r potensial sydd gan gyplau i ddiffinio'r sefyllfa ac i roi ystyriaeth priodol i'r penderfyniad. Dyw'r gyfraith fel ag y mae hi yn cynnig bron dim cyfle am adferiad. Gall y datganiad ysgariad cychwynnol gael ei gyflwyno prin ychydig o wythnosau yn ddiweddarach. Hefyd, mae'n bosibl y gall cyplau gael eu rhwystro rhag ymgeisio i wneud i bethau weithio oherwydd peryglon cyd-fyw am yn rhy hir a byddan nhw'n gorfod aros hyd yn oed yn hirach os ydyn nhw'n dymuno ysgaru ar y sail eu bod wedi byw ar wahân am y cyfnod gofynnol.

Pan mae priodas neu bartneriaeth sifil yn fethiant anadferadwy, mae parhau ynddi yn gallu bod yn andwyol i'r cwpwl ac i unrhyw blant sydd ganddyn nhw. Mae'n hanfodol bod y gyfraith yn cydnabod hyn ac yn galluogi plant i symud ymlaen mewn dull mor adeiladol â phosibl. Y dewis amgen yw bod llawer o bobl yn cerdded ymaith, gan droi eu cefn ar eu goblygiadau a'u cyfrifoldebau. Nid yw hyn yn cynnig sefydlogrwydd o unrhyw fath i deuluoedd. Yn fwy na hyn, gall rwystro rhai pobl rhag ffurfio perthynas gyfreithiol yn y lle cyntaf. Mae'r gallu i gael perthynas bositif yn dilyn gwahanu yn arbennig o bwysig i rieni, gan fod canlyniadau plant yn well os yw'r rhieni yn cytuno ac yn cydweithio. Felly, mae

angen creu gwell sefyllfa i blant a chael gwared ar yr elfennau hyn o fewn y broses gyfreithiol ar gyfer ysgaru er mwyn osgoi gwrthdaro yn yr hirdymor rhwng y rhieni.

Mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf mewn pwysigrwydd teulu. Hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd iawn gwahanu, rydym am i'r gyfraith gynnig i deuluoedd gymaint o sefydlogrwydd ag sy'n bosibl. Dyma pam ein bod yn cynnig cael gwared ar y fflachbwyntiau o wrthdaro o'r gyfraith ac i gyflwyno amserlen leiafswm ar gyfer y broses ysgaru, fel y gall y trefniadau ar gyfer y dyfodol gael eu gwneud mewn dull trefnus ac ystyriol. O dan y broses bresennol, gellir cael ysgariad o fewn tri mis unwaith y mae'r papurau cyntaf wedi cael eu cyflwyno i'r llys. Mae'n bosibl ei fod yn cael ei effeithio gan yr angen i orfod byw ar wahân am gyfnod estynedig. Dyw'r un o'r trefniadau hyn yn ffordd adeiladol i gyplau wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Os oes gan briodas unrhyw obaith i oroesi, mae'n peri pryder difrifol i mi bod y gyfraith bresennol yn rhoi gogwydd negyddol iawn ar y tebygolrwydd drwy gymell y defnydd o broses anffafriol.

Ni all y llys achub priodasau na beirniadu pryd neu pham y mae pethau wedi mynd o chwith. Mae'n rhaid i'r gyfraith adlewyrchu'r cyfrifoldebau'n briodol. Dyma pam ein bod yn parhau i fod yn bryderus ynghylch y gallu i herio ysgariad. Gellir gwrthod yr ysgariad ond am reswm cyfreithiol a byth yn syml oherwydd bod un priod yn dymuno i'r broses ysgaru barhau. Anaml iawn yr eir ati i herio ysgariad ond mae'n cynyddu gwrthdaro ac, ar ei waethaf, yn gallu cael ei ddefnyddio i barhau ag ymddygiad cymhellol a rheolaethol yn ystod y briodas. Rydym hefyd wedi clywed yn ystod yr ymgynghoriad bod llawer o bobl yn ystyried datganiad nisi gan lys yn arwydd bod y briodas ar ben. Mewn realiti, cadarnhad ydyw bod gan y llys y gofynion cyfreithiol a'u bod wedi cael eu bodloni a bod modd rhoi diweddglo cyfreithiol i'r berthynas os mai dyma yw dymuniad un o'r partion neu'r ddau ohonyn nhw. Dyw hi ddim yn rhy hwyr yn ystod y cam hwn i newid eich meddwl. Felly, rydym wedi ystyried eto ein cynigion cychwynnol ac yn cytuno y dylai'r rhan helaeth o'r cyfnod lleiaf gael ei chynnal cyn bod y llys yn rhoi'r datganiad cychwynnol o ysgariad. Bydd pobl sy'n chwilio am ysgariad â gwell cyfle i adlewyrchu cyn eu bod yn ymgeisio eto i'r llys am gadarnhau eu bwriad i barhau â'r ysgariad.

Ni all y gyfraith atal methiant anadferadwy. Mae cynigion y Llywodraeth i ymdrin â'r realiti hwn drwy greu amodau i deuluoedd gymodi, os oes modd gwneud hynny, ond, os nad yw hyn yn bosibl, i symud ymlaen mewn dull mor adeiladol â phosibl.



Y Gwir Anrhydeddus David Gauke AS  
Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

## Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori *Lleihau gwrthdaro teuluol: Diwygio'r Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Ysgaru* ar 15 Medi 2018. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion y Llywodraeth i leihau gwrthdaro teuluol yn y ffordd y gellir dod â phriodasau a phartneriaethau sifil i ben yn gyfreithiol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am ddeuddeg wythnos a daeth i ben ar 10 Rhagfyr 2018.<sup>1</sup>

### Y ffordd yr eir ati i ddiwygio

Prif amcanion polisi'r Llywodraeth yw sicrhau bod y penderfyniad i ysgaru yn un sy'n cael ei ystyried yn llawn, gyda digon o gyfleoedd i geisio cymodi, ac i leihau gwrthdaro teuluol os yw ysgaru yn anochel. Ein egwyddorion diwygio yw gwneud cyfraith ysgaru yn gyson gyda dull nad yw'n creu gwrthdaro fel mewn cyfraith deulu ehangach ac i gydnabod nad yw'r broses gyfreithiol yn creu nac yn gwaethygu gwrthdaro er mwyn cefnogi oedolion yn well i gymryd cyfrifoldeb dros eu dyfodol eu hunain, ac yn bwysicach, dros ddyfodol eu plant.

Mae'r gyfraith ysgaru fel ac y mai yn gweithio yn gwrthdaro â'r egwyddorion hyn. Mae'n ysgogi proses andwyol all danseilio ymdrechion i gymodi ac sy'n gallu hybu gwrthdaro wrth wneud trefniadau i rannu asedau neu wrth drefnu gofal unrhyw blant yn y dyfodol.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth 3,000 o ymatebion i law gan amrywiaeth o unigolion a grwpiau. Hefyd, clywsom ni gan bartïon a chanddynt ddiddordeb a chan arbenigwyr yn y maes mewn digwyddiadau ymgynghori. Rydym yn gwerthfawrogi bod problemau o fewn cyfraith deulu ar unwaith yn arwyddocaol yn gyhoeddus ac yn bersonol iawn ac rydym yn ddiolchgar i'r rheini a aeth ati i rannu eu barn a'u hawgrymiadau gyda ni. Rydym wedi dadansoddi pob ymateb gyda'r nod cyffredinol o nodi'r prif broblemau i'w hystyried ynghylch y ffordd orau o ddiwygio'r gyfraith ac i helpu pobl edrych i'r dyfodol. Rydym wedi defnyddio'r sylwadau a ddaeth i law i lunio ymateb y Llywodraeth. Gellir darllen crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law yn **Atodiad A**.

Cawsom gefnogaeth dros gael gwared ar fai o'r broses gyfreithiol o ysgaru, ynghyd â chreu proses sy'n caniatáu i gyplau i gael cyfnod digonol i adlewyrchu ac i gymodi cyn cymryd y gamau cyfreithiol terfynol i ddod â'r berthynas i ben. Mae priodas yn bwysig i gymdeithas: yn amlwg, roedd gan bobl gwestiynau am sut byddai diwygiadau o'r fath i'r gyfraith yn gweithio. Rydym wedi ystyried yn ofalus ac wedi ymateb i gwestiynau yn ymwneud â hyn yn ddogfen hon.

### Ymateb y Llywodraeth a'n cynigion i ddiwygio

Mae'r Llywodraeth yn credu'n gryf mewn perthnasau teuluol cryf. Yn anffodus, mae perthnasau weithiau yn dod i ben. Pan mae hyn yn digwydd, gall casineb a gwrthdaro parhaus fod yn ddim llai na niweidiol i les aelodau unigol y teulu, yn enwedig i blant. Rydym yn glir pan mae rhieni wedi cymryd y penderfyniad anodd i ysgaru, y ffordd orau i

<sup>1</sup> Cliciwch ar y ddolen ganlynol i ddarllen y papur ymgynghori a'i asesiad effiath cysylltiedig a'r datganiad cydraddoldeb: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/reform-of-the-legal-requirements-for-divorce/>.



ymdrin â buddiannau'r plant yw i leihau unrhyw wrthdaro yn ystod ar ôl y broses gyfreithiol, er mwyn cefnogi cydrianta.

Rydym ni'n credu y dylai'r gyfraith ddiwygiedig sicrhau dau fater: bod y penderfyniad i ysgaru yn parhau i fod yn un sy'n cael ei ystyried, gan roi cyfle i bartneriaid priod newid cyfeiriad, ac nad ydynt yn gorfod wynebu gofynion cyfreithiol sydd ddim yn gwasanaethu eu budd hwy nag un y wladwriaeth ac un a all arwain at wrthdaro parhaus a chanlyniadau gwaeth i'r plant. Rydym am i'r broses gyfreithiol fod yn un sy'n hybu cytundeb cyfeillgar, sy'n deg, yn dryloyw ac sy'n haws i'w ddefnyddio, ac un sy'n creu llai o gyfleoedd i gamddefnyddio'r system ac achosi poendod pellach.

Mae'n fwiad gennym gyflwyno cynigion i ddiwygio'r gyfraith i ddiwallu'r amcanion hyn. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys y canlynol:

### **Cadw'r sail dros ysgaru a diddymu a chael gwared ar y gofyniad i gyflwyno tystiolaeth am ymddygiad neu ffeithiau gwahanu**

Byddwn yn cadw methiant anadferadwy y briodas neu bartneriaeth sifil fel y prif sail y dylid ysgaru neu diddymu. Rydym yn cynnig y dylai'r broses gyfreithiol ar gyfer ysgaru neu diddymu ddechrau gyda datganiad o fethiant anadferadwy fydd yn cael ei gyflwyno i'r llys. Rydym yn glir bod y penderfyniad i roi ysgariad yn benderfyniad cyfreithiol i'r llys ei wneud, gan fod ysgariad yn creu newid arwyddocaol i'r statws cyfreithiol sy'n diwygio hawliau a chyfrifoldebau pobl. Cyn belled â bod y gofynion cyfreithiol yn cael eu bodloni, rydym yn credu bod y datganiad o fethiant anadferadwy yn ddigonol i fodloni'r trothwyon cyfreithiol ar gyfer cael ysgariad neu diddymu.

Bydd y datganiad hwn yn disodli'r gofyniad presennol am dystiolaeth o un o'r pum ffaith, gan gynnwys ffeithiau wedi'u seilio ar ymddygiad a gwahanu. Datgelodd yr ymgynghoriad dystiolaeth bellach bod ffeithiau wedi'u seilio ar ymddygiad ar eu gorau yn ddiangen ac ar eu gwaethaf, yn niweidiol o ran creu gwrthdaro. Hefyd, roedd yn dangos bod ffeithiau wedi'u seilio ar wahanu yn annheg i unrhyw gwpl gan na all rhai cyplau fforddio i wahanu heb gytuno ar y sefyllfa ariannol yn dilyn yr ysgariad ac y gall hyn fod yn niweidiol i'w hymdrechion i gymodi.

### **Darparu ar gyfer yr opsiwn o ymgeisio ar y cyd**

Mae'n fwiad gennym i ddarparu ar gyfer ceisiadau ar y cyd, ynghyd â chadw'r opsiwn i alluogi un parti i ddechrau'r broses. Clywsom y byddai hyn yn adlewyrchu'r realiti ymarferol bod llawer o gyplau yn credu bod y penderfyniad i ysgaru yn un sy'n cael ei wneud ar y cyd ac y gallai fod yn ffafriol i ddull mwy cymodol o gytuno ar y trefniadau ar gyfer y dyfodol.

### **Cael gwared ar y cyfle i herio**

Rydym yn credu nad yw'r gallu i herio ysgariad yn fuddiol i unrhyw un o'r partion ac y dylid cael gwared arno. Rydym yn cydnabod pryderon dwfn y gall hyn ymddangos yn annheg i barti sydd ddim yn dymuno ysgaru. O dan y gyfraith bresennol, fodd bynnag, gellir gwrthod ysgariad dim ond am reswm cyfreithiol yn unig a byth oherwydd bod yr ymatebwr yn dymuno parhau yn y briodas. Dyw'r gallu presennol i herio ddim yn atalydd effeithiol o ysgariad nag yw'n cynorthwyo cymodi. Yn hytrach, gall gyflwyno neu waethygu wrthdaro parhaus a gall cyflawnwyr cam-drin domestig fanteisio arno. Cawsom lawer o gefnogaeth gan grwpiau sy'n helpu dioddefwyr cam-drin domestig i gael gwared ar yr opsiwn cyfreithiol hwn.

Ym mhob achos, byddai hi'n dal yn bosibl i herio'r cais ar sail awdurdodaeth, dilysrwydd cyfreithiol y briodas, twyll neu bwysau a chydymffurfio gweithredol. Byddwn yn parhau i archwilio a ddylai'r dulliau amddiffyn presennol ar gyfer ymatebwyr i gais am ysgariad neu gais i ddiddymu partneriaeth sifil gael eu cryfhau.

### **Cyflwyno cyfnod lleiaf**

Byddwn yn cyflwyno cyfnod lleiaf o chwe mis, fydd yn dechrau o pryd caiff y ddeiseb ei chyflwyno i'r datganiad absoliwt. Bydd hyn yn cael ei lunio o gyfnod lleiaf newydd o ugain wythnos (o gyflwyno'r ddeiseb i'r datganiad nisi) a'r cyfnod lleiaf o chwe wythnos (o'r datganiad nisi i'r datganiad absoliwt). Clywsom gan gyplau oedd yn teimlo eu bod wedi ysgaru pan mae'r llys yn rhoi datganiad nisi iddyn nhw. Felly, mae dechrau'r broses cyn y pwynt hwn yn allweddol i sicrhau adlewyrchiad ystyrlon a chyfle i droi'r cloc yn ôl. Byddwn yn archwilio dulliau i ddiogelu buddiannau'r ymatebwyr lle mae yna anawsterau gyda chyflwyno dogfennau i hysbysu'r ymatebwr ynghylch y ddeiseb. Fel nawr, ni fydd y datganiad nisi yn cael ei roi heb dystiolaeth boddhaol o wasanaeth.

Clywsom amrywiaeth o sylwadau ar beth ddylai hyd y cyfnod lleiaf fod ac rydym yn cydnabod bod yna amrywiaeth eang o resymau pam bod cyplau'n ysgaru. Rydym yn credu bod cyfnod lleiaf cyffredinol o chwe mis yn rhoi fframwaith sengl sy'n rhoi digon o amser i bawb allu adlewyrchu ac, os yw ysgariad yn anorfod, i gytuno ar drefniadau pwysig ar gyfer y dyfodol. Hefyd, mae'r amserlen hon yn ymdebygu'n rhannol gydag awdurdodaethau tebyg eraill. Rydym yn parhau i gredu bod yr eglurder, fel rheol gyffredinol, yn ragweladwy ar gyfer y broses gyfreithiol o fudd i'r amserlen ofynnol sengl, heb eithriadau. Wedi dweud hynny, rydym yn credu y dylai pŵer y llys i bennu cyfnod byrrach, lle mae sail eithriadol i hwyluso'r broses yn bodoli, barhau.

### **Cadw'r broses ddatganiad dau gam**

Byddwn yn cadw'r broses ddatganiad dau gam (ac, ar gyfer partneriaethau sifil, y broses orchymyn dau gam). O fewn hwn, mae yna rôl bwysig rhwng y camau i'r llys ymchwilio materion neu eu cyfeirio at Broctor y Frenhines os yr honnir neu mae amheuaeth bod afreoleidd-dra yn y gweithdrefnau. Rydym yn cynnig, o hyn ymlaen, ei bod hi'n angenrheidiol i ymgeisio ar wahân am ddatganiad nisi a datganiad absoliwt, fel nad yw'r ysgariad neu'r diddymiad yn awtomatig. Bydd hyn yn sicrhau bod y partion yn parhau i fod mewn rheolaeth ac y gallan nhw dynnu'n ôl ar unrhyw adeg os ydyn nhw'n dymuno.

### **Cadw'r gwaharddiad ar gyflwyno deisebau ysgaru yn y flwyddyn gyntaf**

Fe gawsom ni ddadleuon o blaid cadw a chael gwared ar y ddarpariaeth hon. Ar y cyfan, rydym yn credu bod gan y gwaharddiad bwrpas defnyddiol o ran rhoi sylfaen i bwysigrwydd ymrwymo ac felly, rydym yn credu y dylid ei gadw heb eithriad.

### **Moderneiddio'r iaith a ddefnyddir yn y broses ysgaru**

Mae'n fwriad gennym i foderneiddio'r termau a ddefnyddir o fewn y broses ysgaru fel y gellir gwneud y broses yn haws i'w defnyddio. Rydym wedi clywed bod termau fel "deisebwr", "datganiad nisi" a "datganiad absoliwt" yn gallu achosi dryswch a phryder. Rydym yn bwriadu alinio'r rhain gyda'r termau cyfatebol a ddefnyddir i ddiddymu partneriaethau sifil – termau fel "ymgeisydd", "gorchymyn amodol" a "gorchymyn terfynol", sy'n haws i'w deall.

## Cyflwyniad a manylion cyswllt

Dyma ymateb ôl-ymgynghoriad y Llywodraeth ar y papur ymgynghori *Lleihau Gwrthdaro Teuluol: Diwygio'r gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru*.

Bydd yn cynnwys:

- y cefndir i ymateb y Llywodraeth
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad.

Mae modd cael copiâu pellach o'r ymateb hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â'r tîm Lleihau Gwrthdaro Teuluol yn y cyfeiriad isod:

**Reducing Family Conflict, Zone 3.23**  
**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**  
**102 Petty France**  
**Llundain SW1H 9AJ**

**E-bost: [Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk](mailto:Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk)**

Mae'r ymateb hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Mae fersiwn Cymraeg o'r ddogfen hon ar gael. Mae modd cael fersiwn o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat eraill drwy e-bostio [Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk](mailto:Reducing-Family-Conflict@justice.gov.uk).

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau yr hoffech eu gwneud am y broses ymgynghori hon, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori, *Lleihau Gwrthdaro Teuluol: Diwygio'r Gofynion Cyfreithiol ar gyfer Ysgaru* ar 15 Medi 2018. Roedd yn gwahodd sylwadau ar gynigion y Llywodraeth i leihau gwrthdaro teuluol sy'n cael ei achosi neu sy'n dirywio gan rai ofynion cyfreithiol yn y prosesau fel ag y maent mewn proses ysgaru a diddymu partneriaeth sifil. Roedd ein cynigion ni yn canolbwyntio ar adolygu'r prosesau hyn fel eu bod, pan nad oes yna ddim golwg ar gymodi neu mae byw ar wahân yn anorfod, y gellir rhoi diwedd cyfreithiol i briodas neu bartneriaeth sifil gydag urddas ac mewn modd adeiladol fydd yn helpu pobl i ganolbwyntio ar y dyfodol. Mae egwyddorion lleihau gwrthdaro yn berthnasol hefyd i gyplau sy'n dymuno byw ar wahân – ond yn parhau i fod mewn perthynas gyfreithiol – ac sydd, felly, yn ceisio datganiad o wahaniad cyfreithiol (o fewn y briodas) neu'r gorchymyn gwahanu (o fewn partneriaeth sifil).

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori am ddeuddeg wythnos a daeth i ben ar 10 Rhagfyr 2018. Rydym yn ddiolchgar i'r rheini a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac am gymryd rhan yn ein digwyddiadau ymgynghori. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r adborth a ddaeth i law ac ymateb y Llywodraeth.

## Y gyfraith bresennol a'r achos dros ddiwygio

Mae'r gyfraith bresennol dros gael ysgariad (neu ddiddymiad o bartneriaeth sifil) yn gofyn bod yn rhaid i berson sy'n ceisio ysgariad sefydlu un neu fwy o bum "ffaith", fel y gelwir hwy yn y statud, i ddangos bod yr unig sail dros ysgariad, a bod y methiant anadferadwy o'r briodas, yn cael ei sefydlu.<sup>2</sup> Seilir tair o'r ffeithiau ar ymddygiad y priod arall (godineb, ymddygiad a gadael), ac mae dau yn ymwneud yn hytrach ar hyd y cyfnod gwahanu (dwy flynedd os yw'r ddau briod yn cytuno i'r ysgariad a phum mlynedd fel arall, gan gynnwys os yw'r pâr priod yn dewis aros am gyfnod hirach). Gellir dechrau ar y ddeiseb ysgaru gan un priod yn unig (y "deisebwr"). Yna, mae'n rhaid i'r priod arall (yr "ymatebwr") gyflwyno cydnabyddiaeth a dweud pam eu bod yn dymuno herio i "amddiffyn" yr ysgariad. Dim ond tua 2% o ymatebwyr sy'n herio deiseb yr ysgariad. Yn ymarferol, dim ond llond llaw o achosion o'r fath sy'n datblygu i gael eu herio mewn gwrandawriad llys.

Mae'r Llywodraeth yn amlinellu'r achos dros ddiwygio yn y papur ymgynghori gan egluro sut mae'r gyfraith bresennol yn annog gwneud honiadau ynghylch ymddygiad y priod arall. Mae'r penderfyniad i honni yn gallu arwain at y dymunid i sefydlu bod y priod arall yn gyfrifol am y briodas yn methu. Hefyd, gall y penderfyniad gael ei wneud gan un o'r pâr er mwyn osgoi'r angen i aros gyda'i gilydd am o leiaf dwy flynedd cyn bod ffaith wahanu yn weithredol. Mae'r Llywodraeth yn glir y dylai, mewn unrhyw sefyllfa, y defnydd o honiadau ynghylch ymddygiad yn cythruddo ac yn creu pryder mewn cyfnod sydd eisoes yn anodd iawn i gyplau ac unrhyw blant. Gall danseilio unrhyw ymdrechion i'w helpu i ystyried y posibilrwydd o gymodi ac i achub eu priodas. Os yw ysgariad yn anorfod, gall rwystro ymdrechion i ddatrys trefniadau mewn dull deallus er mwyn rhannu asedau a gofal

<sup>2</sup> Mae pedair ffaith ar gael wrth ddiddymu partneriaeth sifil (dyw godinebu ddim yn un ohonyn nhw). Esbonnir y gwahaniaethau rhwng ysgariad a diddymu partneriaeth sifil, gan gynnwys terminoleg, yn y bennod ganlynol, sy'n crynhoi'r esboniad llawnach o'r gyfraith a roddir yn y papur ymgynghori. Mae cyfeiriadau at ysgariad a phriodas yn y papur ymateb hwn i'w hystyried fel cyfeiriadau at ddiddymiad a phartneriaeth sifil, oni bai y nodir yn wahanol.

unrhyw blant yn y dyfodol. Mae'r gyfraith bresennol yn annog priod i bwysu a mesur ar ddigwyddiadau'r gorffennol, yn hytrach nag i edrych tua'r dyfodol.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi nodi bod yna gamddealltwriaeth eang bod honiadau o "fai" sy'n cael eu gwneud o fewn y gweithdrefnau ysgaru yn effeithio ar weithdrefnau cysylltiedig eraill, fel rhannu arian ac asedau a threfniadau yn y dyfodol ar gyfer plant. Mae materion o'r fath yn cael eu penderfynu trwy weithdrefnau hollol ar wahanu sy'n ymwneud ag ystyriaethau cyfreithiol gwahanol i'r llys, ac maen nhw'n gofyn am wahanol fathau o dystiolaeth a rhai sy'n fwy penodol.

Fe wnaethon ni ddadlau y gallai opsiwn amgen fel bod cyplau'n gallu ysgaru ar sail cyfnod blaenorol o fyw ar wahân, yn ymarferol, fod yn anodd i gyplau sy'n methu â fforddio i fyw ar wahân heb gael trefniadau ariannol a thai ar wahân, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae'r materion hyn yn gallu cael eu datrys trwy ofyn i'r llys wneud gorchymyn ariannol.

O ran y gallu i herio'r ysgariad, fe wnaethom ddweud bod priodas yn statws gydsyniol a bod herio ysgariad cyfreithiol ddim, ac na ellir, adfywio priodas lle mae un o'r cyplau yn ystyried bod y briodas wedi dod i ben. Hefyd, gall ymgeisio i herio gael ei gamddefnyddio fel dull rheoli maleisus gan gyflawnwr cam-drin domestig er mwyn creu mwy o ddiodefaint, gan gynnwys y disgwyliad o wrandawriad llys, yn hytrach na chael unrhyw gred gwirioneddol bod y briodas heb ddod i ben.

## **Y broses ymgynghori**

Gan ystyried yr holl faterion hyn, mae'r papur ymgynghori yn amlinellu bwriad y Llywodraeth i ddisodli'r gofynion presennol i roi tystiolaeth ar gyfer methiant anadferadwy trwy'r ffaith bod y broses yn gofyn am ddatganiad bod y briodas bellach wedi methu yn anadferadwy. Byddai proses o'r fath, yn ein barn ni, yn lleihau gwrthdaro ac yn galluogi cyplau i ddod â therfyn cyfreithiol i'w priodas trwy broses gyfreithiol fwy synhwyrol.

Rydym wedi gofyn am farn ar gyflwyno cyfnod lleiaf ar gyfer y broses gyfreithiol o ysgaru, fel bod y penderfyniad o ysgaru yn parhau yn un sy'n cael ei ystyried yn ofalus sy'n rhoi digon o gyfle i gyplau newid cyfeiriad, neu, os yw'r ysgariad yn anorfod, i ddod i benderfyniad ar drefniadau'r dyfodol.

Roedd cynigion penodol a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- cadw'r sail unigol presennol am ysgariad: y methiant anadferadwy o briodas
- cael gwared ar yr angen i un ddangos tystiolaeth o ymddygiad y priod arall neu o gyfnod cyn y gwahanu
- cael gwared ar y cyfle i'r priod arall herio'r cais am ysgariad
- diwygio'r broses bresennol fel bod un, neu o bosibl y ddau barti, yn gallu dechrau ar y broses ysgaru drwy gyflwyno datganiad i'r llys o fethiant anadferadwy o'r briodas
- cyflwyno cyfnod lleiaf ar gyfer y broses gyfreithiol o'r ysgariad (rydym wedi gofyn am farn ar sut y dylai hyn gael ei fesur a hyd y cyfnod)
- cadw'r broses ddatganiad dau-gam bresennol ar gyfer ysgariad (y cam dros-dro a therfynol o'r datganiad, y mae'r gyfraith yn cyfeirio at fel datganiad nisi a datganiad absoliwt)
- cadw'r gwaharddiad ar ysgariad o fewn y flwyddyn gyntaf o'r briodas

## **Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad**

Roedd y papur ymgynghori yn gofyn am farn ar y cynigion hyn gan gynulleidfa eang. Cafwyd ymatebion gan y cyhoedd, ymarferwyr cyfraith teulu, academyddion a sefydliadau crefyddol sydd â diddordeb yn y materion y mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â hwy. Roedd modd cyflwyno ymatebion ar-lein, mewn e-bost neu yn y post.

Cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddau ddigwyddiad ymgynghori cysylltiedig er mwyn cael adborth gan bartïon perthnasol ac i hwyluso'r drafodaeth rhyngddynt. Roedd yr ymgynghoriad bord gron gyntaf yn canolbwyntio ar effeithiau'r cynigion i ddiwygio. Daeth amrywiaeth o grwpiau oedd â phrofiad o ysgariad neu oedd a diddordeb mewn priodas ac ysgariad o bersbectif cymdeithasol ehangach i'r digwyddiad. Roedd y rhain yn cynnwys y cyhoedd, gwasanaethau cymorth preifat a gwirfoddol ar gyfer rhieni, plant a theuluoedd oedd wedi cael anawsterau gyda pherthnasau ac ysgaru. Roedd yr ail ddigwyddiad yn canolbwyntio ar y materion cyfreithiol, technegol ac ymarferol a gyflwynwyd gan y diwygiadau ac ar dystiolaeth gan awdurdodaethau eraill ynghylch yr hyn sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill. Daeth amrywiaeth o gynrychiolwyr o ymarferwyr cyfraith teulu ac academyddion gydag arbenigedd mewn cyfraith priodasol i'r ail ddigwyddiad hwn.

## **Asesiadau effaith**

Mae'r asesiad effaith a'r datganiad cydraddoldeb sy'n cyd-fynd â'r papur ymgynghori wedi cael eu diweddarau i ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a'r effeithiau a adnabyddwyd fel rhan o'r cynigion i ddiweddarau'r polisi.

## Crynodeb o'r gyfraith bresennol

Yn y papur ymgynghori, fe wnaethom egluro mewn manylder y broses gyfreithiol bresennol ar gyfer cael ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â'r broses gysylltiol o weithdrefnau gwahanu. Byddai'n ddefnyddiol ailadrodd y pwyntiau hanfodol fel bod modd deall yn union gynigion y Llywodraeth i ddiwygio'r gyfraith a barn pobl yn ystod yr ymgynghoriad.

Prif fyrddwn y diwygiad arfaethedig yw cadw'r methiant anadferadwy o'r briodas neu bartneriaeth sifil fel y prif sail y gall y llys roi ysgariad (neu'r diddymiad) ac i gael gwared ar y gofyniad i fodloni'r llys o un o'r pum "ffaith", fel y mae'r gyfraith yn eu galw. Gall y ffeithiau hyn gael eu seilio ar ymddygiad y priod arall (neu'r partner sifil) neu ar hyd cyfnod y gwahanu. Deilliodd y cynigion eraill y gwnaethom eu cyflwyno a'r cwestiynau yr oeddem yn eu gofyn o'r deunydd craidd hwn.

Mae'r gyfraith sy'n llywodraethu sut mae pobl yn gallu ysgaru yng Nghymru a Lloegr wedi'i hamlinellu yn Rhan 1 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973.<sup>3</sup> (Roedd y ddeddf hon yn disodli Deddf Diwygio Ysgariad 1969, a ddaeth i rym yn 1971, sy'n golygu bod y broses gyfreithiol fel ag y mae hi i gael ysgariad nawr bron yn hanner cant oed). Gall y llys roi datganiad o ysgariad dim ond os yw'r briodas wedi torri i lawr ac nad yw'n bosibl ei hadfer, mater y mae'r gyfraith yn alw'n "sail" bod y briodas wedi "methu yn anadferadwy".<sup>4</sup> O ran ysgariad, mae rhoi datganiad o ysgariad yn broses dau gam. Y cam cyntaf yw'r "datganiad nisi" ac mae'n ddatganiad dros-dro. Deuir a'r briodas i derfyn cyfreithiol dim ond pan mae'r llys yn gwneud y datganiad yn "absoliwt". Mae'n rhaid i gyfnod o leiaf chwe wythnos basio rhwng y ddau gam.

Mae gwahanu barnwrol yn wahanol i ysgariad a phrin mae'n cael ei ddefnyddio. Mae'n ffurf ar wahanu sydd, er enghraifft, yn galluogi i rai gorchmynion ariannol i gael eu gwneud heb derfynu'r briodas. Fel gydag ysgariad, mae'n rhaid i bobl sy'n ceisio gwahaniad barnwrol roi tystiolaeth o un neu fwy o'r bum ffaith. Wedi dweud hynny, mae gan wahaniad barnwrol ddatganiad dau gam, gan fod y briodas yn mynd i barhau, nid yw'r llys yn ystyried a yw'r briodas wedi methu'n anadferadwy. Os yw pobl sydd wedi cael gwahaniad barnwrol yn dymuno terfynu eu priodas, mae'n rhaid iddyn nhw ymgeisio am ysgariad.

Mae Deddf Partneriaethau Sifil 2004 yn gwneud darpariaethau cyffelyb o ran partneriaethau sifil. Mae'r prosesau'n debyg mewn bron pob achos ond mae yna wahaniaethau amlwg yn y derminoleg. Gelwir ysgariad yn ddiddymiad, mae gwahaniad barnwrol yn cael ei alw'n wahanu, ac mae datganiadau'n cael eu galw'n orchmynion. Mewn achos o ddiddymiad, mae dau gam i'r broses orchmyn ond mae'r rhain yn cael eu galw'n amodol ac yn derfynol yn hytrach na datganiad nisi ac absoliwt.

Nid yw'n bosibl i'r ddau barti ymgeisio gyda'i gilydd am ysgariad, diddymiad neu wahaniad (barnwrol). Felly, mae'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng y parti sy'n dechrau'r gweithdrefnau a'r parti arall. O ran priodas, y deisebwr sy'n cyflwyno'r ddeiseb i'r llys. O

<sup>3</sup> Dyma'r ddolen <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1973/18/part/I>

<sup>4</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(1).

ran partneriaethau sifil, yr ymgeisydd sy'n cyflwyno'r cais. Yn y ddau achos, yr enw a roddir ar y parti arall bob amser yw'r ymatebwr.

Er hwylustod, bydd cyfeiriadau ynghylch ysgariad a phriodas yn y papur hwn yn cynnwys cyfeiriadau ynghylch diddymiad a phartneriaethau sifil fel sy'n briodol. (Er enghraifft, mae hyn yn golygu bod cyfeiriad at briod sy'n cyflwyno deiseb am ysgariad yn cynnwys partneriaid sifil sy'n ymgeisio am orchymyn diddymu).

## Yr unig sail dros ysgaru

Nid oes ond un sail dros ysgaru, sydd wedi'i ddiffinio mewn statud fel a ganlyn: "bod y briodas wedi chwalu ac nid oes modd ei hadfer".<sup>5</sup> Dan y gyfraith bresennol yng Nghymru a Lloegr, ni all y llys roi dyfarniad ysgaru oni bai fod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer. Ni all y llys ddal bod y briodas wedi methu y tu hwnt i adfer oni bai fod y deisebydd yn ei argyhoeddi o un neu ragor o'r pum ffaith sydd ar gael. Nid yw'r ffeithiau hyn yn ddigon ohonyn nhw eu hunain i ddod â'r briodas i ben yn gyfreithiol ond rhaid profi o leiaf un ohonyn nhw.

## Y pum ffaith

Mae'n rhaid i briod sydd am gael ysgariad neu wahaniad barnwrol ddewis o leiaf un o'r pum ffaith hyn sydd ar gael a rhoi tystiolaeth ohono yn eu deiseb i'r llys. Mae'r un yn berthnasol gyda phartneriaid sifil, ac eithrio'r ffaith nad yw'r ffaith odinebu ar gael iddyn nhw. Rydym yn ailadrodd y ffeithiau isod (gan eu bod yn berthnasol i ysgariad ac i wahanu barnwrol) oherwydd bod yna rywfaint o gymhlethdod iddyn nhw, y gallwn ni eu hamlinellu yma yn unig.<sup>6</sup>

- (a) bod yr atebwydd wedi godinebu a bod y deisebydd yn cael nad yw'n gallu dioddef byw gyda'r atebwydd;
- (b) bod yr atebwydd wedi ymddwyn yn y fath fodd fel na ellir disgwyl yn rhesymol i'r deisebydd fyw gyda'r atebwydd;
- (c) bod yr atebwydd wedi gadael y deisebydd am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno;
- (d) bod y partion i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o ddwy flynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "two years' separation") a bod yr atebwydd yn cydsynio i ddyfarniad gael ei roi;
- (e) bod y partion i'r briodas wedi byw ar wahân am gyfnod di-dor o bum mlynedd o leiaf yn union cyn i'r ddeiseb gael ei chyflwyno (sy'n cael ei alw o hynny ymlaen yn y Ddeddf yn "five years' separation").<sup>7</sup>

Mae'r ddwy ffaith gyntaf ac, ym marn rhai, y drydedd ffaith (wedi gadael) wedi'u seilio ar ymddygiad yr atebwydd, sy'n cael ei alw'n aml yn "fai". Nid yw'r bedwaredd a'r bumed ffaith, sy'n seiliedig ar wahanu, yn galw am wneud honiadau am ymddygiad yr atebwydd. Wrth gwrs, gellir cyfuno ffaith am wahanu â ffaith am ymddygiad. Mae'r gyfraith hefyd yn

<sup>5</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(1). Yn yr un modd, noda adran 44(1) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, mai'r unig reswm dros diddymu partneriaeth sifil yw: "*that the civil partnership has broken down irretrievably*".

<sup>6</sup> Amlinella'r papur ymgynghori'r gyfraith bresennol mewn mwy o fanylder. At ddibenion dadansoddi awdurdodol, rydym eto'n awgrymu cyfeirio at *Cretney and Probert's Family Law*, gol. Rebecca Probert a Maebh Harding (London: Sweet & Maxwell, 2018).

<sup>7</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(2).



gwneud darpariaethau atodol am y ffeithiau.<sup>8</sup> Mae'r darpariaethau atodol hyn yn effeithio ar y gallu i dderbyn tystiolaeth o'r ffeithiau mewn amgylchiadau penodol (er enghraifft, mae'n rhaid cyfrifo cyfanswm cyfnod y gwahanu).

Yr unig dro y gall godinebu ddigwydd yw rhwng yr ymatebwr a pherson o ryw arall.<sup>9</sup> Ac eto, gall ac yn wir, mae unrhyw fath o anffyddiaeth priodasol yn cael ei gynnwys o dan y ffaith ymddygiad. Wedi dweud hynny, dyw'r ddwy ffaith hon ddim yn cael eu geirio yr un fath. O dan odinebu, dyw'r weithred o odinebu ddim yn ddigonol i fodloni'r gofyniad cyfreithiol, ac mae'n rhaid i'r deisebydd hefyd ei chael yn annioddefol i fyw gyda'r ymatebwr. O dan y ffaith ymddygiad – weithiau yn cael ei thalfyrru fel “ymddygiad afresymol” – dyw'r ymddygiad ei hunan ddim yn gorfod bod yn afresymol, ond mae'n rhaid i'r ymddygiad achosi iddo fod yn afresymol i ddisgwyl i'r deisebwr fyw gyda'r ymatebwr. Yn unol â hynny, mae'n rhaid i'r llys osod prawf gwahanol ar gyfer pob ffaith.

Mae gadael (ffaith sy'n cael ei defnyddio yn anaml iawn) yn wahanol i wahanu o ran bod yr atebydd wedi gadael yn fwriadol heb gydsyniad y deisebydd. Mae dwy ffaith gwahanu ar gael. Os nad yw'r atebydd yn cytuno ar yr ysgariad, rhaid cael gwahaniad pum mlynedd. Os bydd yr atebydd yn cytuno i'r ysgariad, bydd gwahaniad dwy flynedd yn ddigonol ond mae'n bosibl defnyddio'r gwahaniad pum mlynedd os yw'r partion wedi byw ar wahân am y cyfnod hwnnw. Mae'n bosibl i ddeisebwyr ddibynnu ar y ffeithiau gwahanu os ydynt wedi byw bywydau ar wahân o dan yr un to â'r atebydd, ond mae'r amodau'n fater cyfraith achosion a rhaid iddynt gael eu profi yn ddigonol i'r llys.

## **Pryd a sut y gellir cyflwyno deisebau**

Nid yw bob amser yn bosibl gwneud deiseb ysgaru yn syth wedi i'r briodas fethu. Mae hyn yn fwyaf amlwg lle mae deisebau'n dibynnu ar un o'r ffeithiau gwahanu. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd defnyddio'r ffeithiau godineb neu ymddygiad, os gellir gwneud hynny, bron bob amser yn agor y llwybr i gael ysgariad yn gynharach, gan osgoi'r angen i aros am ddwy neu bum mlynedd.

Pa ffaith bynnag a ddefnyddir, mae gwaharddiad ar gyflwyno pob deiseb ysgaru ym mlwyddyn gyntaf y briodas.<sup>10</sup> Fodd bynnag, gellir cyflwyno deiseb am wahaniad barnwrol ar unrhyw adeg yn ystod y briodas (cyn belled â'i bod hi'n bosibl i brofi bod o leiaf un o'r ffeithiau yn bodoli).

Mae partneriaethau priod a sifil yn ddefnyddio'r un Ffurflen lys ar gyfer yr holl weithdrefnau hyn.<sup>11</sup> Mae modd gwneud cais am ysgariad ar-lein hefyd.<sup>12</sup> Yn y man, bydd ceisiadau ar-lein yn cael eu hymestyn i gynnwys ddiddymu partneriaethau sifil.

Mae'n rhaid i'r ymatebwyr gydnabod ei fod wedi cael y ddeiseb neu'r cais fel gall y llys fod yn fodlon ei fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau. Os nad yw'r ymatebwr yn cydnabod derbyn y cais neu'r ddeiseb, mae'n rhaid i'r ymgeisydd neu'r deisebwr gymryd camau eraill i ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i wneud yr ymatebwr yn ymwybodol o'r

<sup>8</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 2.

<sup>9</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(6).

<sup>10</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran (3)(1). Hyd y rhwystr yw blwyddyn a diwrnod, fel cyfnod o un flwyddyn o'r dyddiad y mae'n rhaid i'r briodas ddod i ben.

<sup>11</sup> Defnyddir y Ffurflen D8 i lunio'r ddeiseb: mae hi ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/form-d8-application-for-a-divorce-dissolution-or-to-apply-for-a-judicial-separation-order>

<sup>12</sup> Mae'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn <https://www.gov.uk/apply-for-divorce>

sefyllfa fel bod y llys yn gallu symud ymlaen heb y gydnabyddiaeth hon (er enghraifft, os nad yw hi wedi bod yn bosibl i ddod o hyd i'r ymatebwr).

Hefyd, gall ymatebwyr ddewis ateb y ddeiseb neu'r cais yn nodi eu dymuniad i'w herio. Fel arfer, cyfeiriwyd at y cam hwn yn y broses gyfreithiol fel amddiffyn, ond rydym wedi bod yn cyfeirio ato, at ddibenion eglurder, fel herio. Mae'n rhaid i ymatebwyr sy'n dymuno herio gwblhau Ffurflen lys wahanol i "ymateb" i'r ddeiseb neu'r cais.<sup>13</sup> Mae'n rhaid i ymatebwyr gydnabod eu bod wedi cael y ddeiseb neu'r cais, fel gall y llys fod yn fodlon eu bod yn ymwybodol o'r trafodion neu fel ei bod hi'n bosibl i gael gwared ar wasnaeth (er enghraifft, mewn sefyllfaoedd lle mae hi wedi bod yn amhosibl lleoli'r ymatebwr).

## Proses y llys

Pan fydd y llys yn cael deiseb ysgaru neu cais i ddiddymu, mae'n cynnal nifer o wiriadau gweinyddol, gan gynnwys sicrhau bod y briodas neu'r bartneriaeth sifil yn ddilys yn ogystal â bod gan y llys awdurdodaeth i ddiddymu'r briodas.

Mae bron iawn pob achos yn cael ei farnu ar ei olwg ac ar y sail bod yr wybodaeth a ddarperir yn y ddeiseb neu'r cais. Dim ond mewn llond llaw o achosion mae'r ymatebwr yn herio'r gweithdrefnau. Mewn hyn yn oed llai o achosion mae hyn yn arwain at wrandawriad lle mae'r lys yn clywed tystiolaeth gan y ddau barti. Fel arall, os yw'r llys yn fodlon y dylid rhoi'r datganiad nisi neu y dylid gwneud gorchymyn amodol, bydd y barnwr yn gwneud hynny.

Mae pŵer gan y llys i gyfeirio materion at Broctor y Goron (yn ei hanfod, i swyddfa Cyfreithiwr y Trysorlys, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth) os oes amheuaeth bod deiseb yn dwyllodrus.<sup>14</sup> Gall y llys hefyd benodi cyfaill cyfreitha os oes angen ynghylch capasiti un o'r partion i ddeall y gweithdrefnau.

## Pan y gellir gwneud datganiad neu orchymyn yn derfynol

Er y dylid caniatáu amser ar gyfer ymdrin ag amrywiol faterion rhwng cyflwyno'r ddeiseb neu'r cais i'r llys a phan gaiff y datganiad nisi ei roi neu y caiff y gorchymyn amodol ei wneud – gan gynnwys cydnabod y gwasanaeth a rhoi amser i'r llys wneud y gwiriadau angenrheidiol – nid oes angen oedi penodol ar y llys. Felly, mae'n bosibl o dan y gyfraith bresennol i'r llys roi datganiad nisi neu i wneud gorchymyn amodol mewn mater o wythnosau. Yr unig amser y mae'r gyfraith yn gofyn amdano yw rhwng camau'r nisi (amodol) a'r absoliwt (terfynol) o'r gorchymyn datganiad neu ddiddymu.

Er bod Deddf Achosion Priodasol 1973, a oedd yn cynnwys statud gynharach, wedi parhau i ddatgan bod rhaid i chwe mis fynd heibio rhwng rhoi dyfarniad nisi a rhoi dyfarniad absoliwt,<sup>15</sup> roedd hefyd yn dal i ddarparu pŵer i fyrhau'r cyfnod hwn. Cafodd y pŵer hwn ei ddefnyddio yn 1972 i bennu cyfnod gofynnol o chwe wythnos. Dyma'r cyfnod sy'n gymwys bellach ac mae darpariaeth debyg ar gyfer diddymu partneriaeth sifil.<sup>16</sup> Fodd

<sup>13</sup> Defnyddir y Ffurflen D8 i wneud y ddeiseb sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/form-d8-application-for-a-divorce-dissolution-or-to-apply-for-a-judicial-separation-order>

<sup>14</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 8

<sup>15</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(5)

<sup>16</sup> O ran diddymu partneriaeth sifil, mae adran 38 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 yn datgan na all gorchymyn diddymu amodol gael ei wneud yn derfynol nes bod cyfnod o chwe wythnos wedi pasio. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud darpariaethau ar gyfer diwygio'r cyfnod hwnnw, ond ddim hwy na chwe mis.

bynag, yn ymarferol mae'r datblygiad rhwng y dyfarniadau yn cymryd mwy o amser am nifer o resymau, gan gynnwys delio â'r parti arall ac â chynrychiolwyr cyfreithiol.

Mae darpariaeth hefyd i'r llys bennu cyfnod byrrach mewn achos penodol. Defnyddir y pŵer hwn yn gymharol anaml ond fe'i defnyddir fel arfer mewn achosion lle mae rhywun yn dymuno cwblhau dyfarniad absoliwt cyn ei farw, neu lle mae rhywun yn disgwyl rhoi genedigaeth, er enghraifft, ac yn dymuno ailbriodi cyn i'r plentyn gael ei eni

Gall deisebydd neu ymgeisydd wneud cais, wedi i'r cyfnod gofynnol am y datganiad nisi ddod i ben (neu'r gorchymyn amodol) am droi'r dyfarniad nisi yn ddyfarniad absoliwt (neu ddyfarniad terfynol). Gwneir y cais drwy roi hysbysiad i'r llys. Os ar ôl chwe wythnos o'r dyfarniad nisi yn cael ei roi ni fydd y deisebydd yn gwneud y cais, rhaid i'r atebydd aros am dri mis pellach ar ôl y datganiad nisi cyn cael caniatâd i wneud hynny.<sup>17</sup>

Pan fydd y llys yn cael cais am ddyfarniad absoliwt, bydd y llys yn gwneud y dyfarniad nisi yn absoliwt os bydd wedi'i fodloni ar nifer o faterion, er enghraifft, nad oes apêl yn yr arfaeth yn erbyn gwneud y dyfarniad nisi.

---

<sup>17</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 9(2)

## Y dull diwygio

Wrth fframio ei gynigion ar gyfer yr ymgynghoriad, roedd y Llywodraeth yn glir ei bod wedi ystyried eto y darpariaethau yn Rhan 2 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 ac wedi dod i'r canlyniad na fyddai hi'n ymarferol i'w cyflwyno am yr eildro. Dyma yw ein barn o hyd ac nid oedd ein cynigion yn ceisio adlewyrchu'r darpariaethau hyn. Yn lle hynny, aethom ati i lunio cynigion i ddisodli'r gofyniad "ffraith" i ddangos methiant anadferadwy o'r briodas gyda phroses ddiwygiedig sydd ddim yn agored i gamddefnydd ac un sydd ddim yn creu nac yn annog gwrthdaro. Mae cyflawni'r amcanion pwysig hyn yn bosibl, yn ein barn ni, heb orfod symud yn gyfan gwbl i broses gyfreithiol newydd, fel oedd yr achos gyda Deddf 1996.

Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod yna gefnogaeth eang i gael gwared ar yr elfen o roi bai gan y broses gyfreithiol o roi ysgariad. Hefyd, mae yna gefnogaeth eang dros y broses sy'n caniatáu i gyplau gael cyfnod digonol i adlewyrchu a'r posibilrwydd o gymodi cyn cymryd y camau terfynol o ddod â diwedd cyfreithiol i'w priodas. Mae'r Llywodraeth wedi pwysu a mesur yn ofalus sut i gyflawni'r amcanion hyn.

Rydym ni'n credu bod yna agweddau ar y broses gyfreithiol fel ac y mae hi allai gael eu cadw a'u diwygio fel bod modd diwallu anghenion cyplau yn well a helpu i sicrhau bod y sefydliad priodasol yn cael ei gefnogi a bod y penderfyniad i ysgaru yn un sy'n cael ei ystyried yn ddwys. Os yw ysgariad yn anorfod, dylai'r broses gyfreithiol fod mor ddi-boen â phosibl ac yn ddeallus. Dylai hefyd fod yn haws i bartïon sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol ei deall. Ni ddylai'r broses gyfreithiol fod yn un andwyol a dylai adlewyrchu'r reoli i lawer o gyplau bod y penderfyniad i ysgaru yn aml yn un sy'n cael ei wneud ar y cyd. Mae'r gyfraith bresennol yn rhoi'r pwyslais ar un parti i ddechrau'r broses o ysgaru ac mae wedi'i seilio ar ddull o weithio sy'n andwyol, gyda'r partiön ar y ddwy ochr. Ac eto, anwir yw'r honiad y byddai llys yn archwilio pwy sydd ar fai am y briodas yn methu. Nid dyma mewn unrhyw ffordd yw swyddogaeth y llys. Yr hyn mae'r llys yn ei wneud yw sicrhau bod y trothwy cyfreithiol ar gyfer yr ysgariad wedi cael ei ddiwallu. Efallai nad yw'r ffeithiau a ddefnyddir i sefydlu hyn yn adlewyrchu'r gwir reswm neu resymau dros ysgaru. Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac o ymchwil academiaidd, bod y cyhoedd yn camddechongli sut mae cyfraith ysgaru yn gweithio yn ymarferol.

Profiad Deddf Cyfraith Teulu 1996 yw bod diwygio sy'n rhy uchelgeisiol ac yn gymhleth yn anodd i'w rhoi ar waith. Byddai'r darpariaethau yn y Ddeddf honno wedi cyflwyno cyfarfod gorfodol ar ddechrau'r broses ysgaru, gan ddilyn gydag amrywiaeth o gyfnodau lleiaf amrywiol oedd yn gorfod dod i ben cyn byddai'r ysgariad yn cael ei roi. Byddai ysgaru o dan y ddeddf honno wedi cymryd o leiaf 12 mis (i gyplau heb blant) neu 18 mis (lle roedd plant yn y briodas). Yn ystod y cyfnod hynny, byddai'r cyplau wedi methu â dod â'r trefniadau i'w terfyn o ran rhannu eiddo ac asedau eraill. Mae'r Llywodraeth wedi adolygu'r dystiolaeth ac mae'n ymddangos yn glir mewn sawl achos bod y penderfyniad i ddechrau ar y broses ysgaru yn un sy'n cael ei hystyried yn ystyriol. Felly, ni ddylai'r gyfraith geisio ymestyn y berthynas gyfreithiol ddim hirach nag sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gwneir trefniadau amgen ar gyfer y dyfodol. Ond fe all y gyfraith – ac fe ddylai – gael rôl mewn rhoi i gyplau gyfle i adlewyrchu ar y penderfyniad pwysig hwn ac i dynnu'n ôl o'r broses os credir bod modd cymodi. Mae yna densiwn cynhenid yn y broses gyfreithiol sy'n ceisio diwallu'r ddwy amcan hyn, ac mae'n anochel bod angen rhywfaint o gyfaddawdu.

Yng nghyd-destun ein cynnig i wneud diwygiadau i'r broses gyfreithiol bresennol, roedd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gofyn pam nad yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno'r opsiwn i gadw'r ffeithiau seiliedig ar ymddygiad ar gyfer "ymddygiad afresymol" (fel y'i gelwir weithiau, ond yn gamarweiniol, yn cael ei dalfyrro) a godinebu, gyda chyfnodau llai ar gyfer y ffeithiau gwahanu. Roeddent yn cyfeirio at y gyfraith yn yr Alban, lle mae ffeithiau seiliedig ar ymddygiad (ac eithrio gadael, sy'n cael eu defnyddio yn anaml iawn) wedi cael eu cadw a bod y ffeithiau gwahanu wedi cael ei lleihau o ddwy flynedd i un (os yw'r ddau barti yn gytŷn) ac o bum mlynedd i ddwy flynedd (fel arall). Gwnaed y newidiadau hyn trwy Ddeddf Cyfraith Teulu (yr Alban) 2006.

Nid oes modd cymharu'n union y gyfraith yn yr Alban a'r un yng Nghymru a Lloegr mewn agweddau allweddol. Yn yr Alban, mae yna weithdrefn ysgaru syml i gyplau sydd heb blant ac nid oes hawliad ariannol ar y naill na'r llall. Mae'r defnydd o ffeithiau seiliedig ar ymddygiad yn yr Alban wedi bod yn llawer llai yn hanesyddol nag yng Nghymru a Lloegr hyn yn oed cyn i'r newidiadau gael eu gwneud trwy Ddeddf Cyfraith Teulu (yr Alban) 2006 i gael gwared ar adael a gostwng y cyfnodau gwahanu. Mae'r ffaith sy'n cael ei defnyddio amlaf yn yr Alban yw gwahanu ar gyfer dwy flynedd. Dyw hi ddim yn glir y rhesymau dros hynny ac mae llawer llai o ddefnydd ar y ffaith gwahanu un flwyddyn ond mae'n bosibl eu bod yn gysylltiedig â'r ffordd y mae trefniadau ariannol yn cael eu setlo.

Mae'r defnydd ar ffeithiau seiliedig ar ymddygiad yng Nghymru a Lloegr, o'i gymharu, yn parhau i fod yn uchel: mae tri allan o bob pum o ddeisebau am ysgariad yn seiliedig ar ymddygiad. Nid yw hi'n glir bod lleihau'r cyfnodau ar gyfer y ddwy ffaith gwahanu, fel y gwnaed yn yr Alban, yn arwain at leihad sylweddol yn y defnydd o ffeithiau seiliedig ar ymddygiad. Byddai'n rhaid i gyplau ddal gael y cymhelliant i ddefnyddio ffaith seiliedig ar ymddygiad fel dull amgen i ddisgwyl i gyfnod gwahanu gofynnol o un blynedd basio cyn ceisio am ysgariad, fyddai'n dal i olygu cyfnod ychwanegol o gyflwyno'r ddeiseb i gael ei gwblhau. Byddai un o'r pâr sydd â bwriad i achosi gofid i'r llall yn dal i allu defnyddio ffaith ymddygiad i wneud hynny. Mae'r Llywodraeth wedi cael ei pherswadio gan y dystiolaeth gan sefydliad Resolution – mae ei haelodau'n cynrychioli llawer o gyfreithwyr teulu – bod angen mwy o ddiwygio sylweddol i leihau gwrthdaro mewn mater o ysgariad. Nid ydym yn gweld unrhyw gyfiawnhad dros gadw at broses gyfreithiol sy'n annog gwneud honiadau sy'n seiliedig ar ymddygiad allai ymdebygu i ychydig neu ddim realiti i'r rhesymau gwirioneddol dros y briodas yn methu. Mae'n bosibl nad yw'r rhesymau gwirioneddol oherwydd gweithrediad un o'r parti yn unig. Dylai'r gyfraith annog y ddau barti i feddwl am y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio ar ddigwyddiadau o'r gorffennol.

Bydd y Llywodraeth yn gwneud newidiadau cymharol i'r gofynion cyfreithiol ar gyfer gwahaniad barnwrol (yn achos priodas) a gwahanu (yn achos partneriaeth sifil) lle mae'r gofynion yn cael eu hadlewyrchu a lle mae'n gwneud synnwyr i wneud newidiadau.

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 3,372 o ymatebion i law i'r papur ymgynghori gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys unigolion, grwpiau a chyrrff cynrychioladol. Roeddent yn cynnwys y cyhoedd (2,916 o ymatebion, 87% cyfanswm), ymarferwyr cyfraith teulu fel aelodau o'r farnwriaeth, cyfreithwyr teulu, cyfryngwyr a gweithwyr cymdeithasol (238 o ymatebwyr, 7%) ac academyddion a sefydliadau sydd â diddordeb proffesiynol (65 ymateb, 2%). Mae crynodeb fanwl o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn **Atodiad A** ac mae dadansoddiad llawn o'r ymatebwyr i'w gael yn **Atodiad B**, gan gynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd. Oherwydd natur ansoddol llawer o'r cynigion a'r ymatebion, mae hyn yn cynnwys crynodebau o'r dadleuon gwirioneddol a wnaed, ynghyd â chanran y rheini oedd yn cytuno ag yn anghytuno.

Oherwydd natur hunan-ddewisol yr ymgynghoriadau, dyw'r rheini a ddewisodd ymateb ddim o reidrwydd yn cynrychioli barn mwy cyffredinol y cyhoedd na barn y rheini o'r sectorau neu'r sefydliadau o fewn eu maes gwaith. Roedd yn amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod gan rai o'r ymatebwyr brofiad uniongyrchol o'r broses gyfreithiol o ysgaru. Roedd eraill yn cyfeirio at brofiadau anuniongyrchol ffrindiau neu berthnasau oedd wedi ysgaru. Mae lefel y ddealltwriaeth (a chamddealltwriaeth) sut mae'r gyfraith fel ac y mai hi yn gweithio ar lawr gwlad yn amrywio'n fawr.

Hefyd, roedd hi'n glir o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod yna bryderon ynghylch goblygiadau cynigion y Llywodraeth ar gyfer priodas a'r teulu. Roedd rhai grwpiau oedd yn gwrthwynebu i gynigion y Llywodraeth yn annog eu cefnogwyr trwy ganllawiau ar-lein i ymateb i rai cwestiynu yn benodol ac i wneud pwyntiau penodol yn eu dadleuon. Mae'r lluo o ymatebion a ddaeth i law yn ystod dwy wythnos olaf yr ymgynghoriad yn ymddangos i fod wedi cael eu hannog gan hyn. Cafodd y gefnogaeth frwd yn gynharach yn yr ymgynghoriad am y pum ffaith, lle roedd 75% o'r ymatebwyr o'i phlaid, ei disodli ar ddiwedd yr ymgynghoriad gan yr effaith a gafodd yr ymatebion diweddaraf hyn.

Roedd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud â gwrthwynebiad ar sail barn Cristnogion o briodas ac ysgaru. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ac yn parchu'r sylwadau hyn. Roedd rhai o'r gwrthwynebiadau – yn aml yn deillio o'r argyhoeddiadau gwirioneddol – wedi'u seilio ar gamddealltwriaeth o sut mae'r gyfraith ysgaru bresennol yn gweithredu ar lawr gwlad (er, nid oedd camddealltwriaeth wedi'i gyfyngu i'r grwpiau hyn yn unig). Mae'r gyfraith ar ffurfio priodas yn darparu ar gyfer priodas un ai trwy seremoni sifil neu trwy seremoni grefyddol, gan gynnwys priodasau sy'n cael eu gweinyddu gan yr Eglwys yn Lloegr. Wedi dweud hynny, mae'r gyfraith ar ysgaru yn seciwlar ac nid oes yna unrhyw wahaniaeth rhwng ysgaru o briodasau yn unol â'r ffordd yr aethpwyd iddynt yn y lle cyntaf. Tra ein bod yn cydnabod y sylwadau ar agweddau crefyddol o addunedau priodas, mae'r rhain yn faterion o gydwybod i'r unigolion yn y briodas a ddim yn faterion sydd o gonsyrn i ofynion cyfreithiol ysgariad. Mae'n rhaid ystyried gwrthwynebiad gan grwpiau Cristnogol ynghyd â barn ymatebwyr yn fwy cyffredinol, sydd ar y cyfan yn gefnogol i'n cynigion i leihau gwrthdaro.

Mynegwyd cefnogaeth gref ar gyfer diwygio gan y sefydliadau hynny oedd â phrofiad uniongyrchol o'r broses ysgaru. Roedd y rhain yn cynnwys cyrrff cyfraith teulu, grwpiau cefnogi perthnasau, cyrrff yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, rhai ohonynt oedd yn cynrychioli grwpiau mawr o'r aelodau (gan gynnwys Association of District Judges,

Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Resolution, Family Mediation Council, Relate, Cymorth i Fenywod a Cafcass).

Ni atebodd yr holl ymatebwyr bob cwestiwn. Fe ymatebodd rhai yn uniongyrchol i'r cwestiynau, atebodd rhai ond rhan o'r cwestiwn, ac fe wnaeth eraill sylwadau mwy cyffredinol ar gynnwys cyffredinol yr ymgynghoriad yn hytrach nag ar y ein cynigion penodol. Wedi dweud hynny, darllenwyd pob ymateb yn ei gyfanrwydd, cafodd ei gyfrif a'i gategoreiddio. Cafodd ymatebion ar y cyd neu ymatebion ar ran grwpiau o aelodau mawr eu cyfrif fel un ymateb. Dyw'r ffigurau a nodir yma ddim yn cynnwys yr ymatebion hynny nad oedd yn mynd i'r afael yn benodol â'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad, ond mae'r dadansoddiad ehangach o'r adborth i'r ymgynghoriad yn ystyried y sylwadau a fynegwyd.

Cafodd yr ymatebion a'r cynnwys o'r trafodaethau bord gron eu dadansoddi er mwyn nodi barn ar effaith y cynigion ar gyfer diwygio a'r opsiynau ar gyfer cynigion mwy manwl o fewn y diwygiad ehangach y gwnaethom eu nodi yn yr ymgynghoriad ac i gael syniad o'r lefel o'r gefnogaeth gan wahanol grwpiau o ymatebwyr.

Mae trosolwg byr o'r ymatebion i'r prif gynigion wedi'i amlinellu isod. Mae crynodebau llawn o'r ymatebion i bob cwestiwn yn **Atodiad A**.

### Gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgaru

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y cynnig i gyflwyno hysbysiad o fethiant anadferadwy priodas ar sail ymgeisio am ysgariad. Byddai hyn yn cadw'r unig sail dros ysgariad oherwydd methiant anadferadwy'r briodas ond yn cael gwared ar y gofyniad i roi tystiolaeth ar gyfer hyn trwy ddefnyddio "ffaith".

Roedd cefnogaeth eang am gadw **sail dros ysgaru** oherwydd methiant anadferadwy o'r briodas, sy'n cael ei weld yn darparu trothwy clir a synhwyrol. Roedd rhai yn mynegi pryderon ynghylch â yw'r diffiniad yn oddrychol heb dystiolaeth gefnogol benodol. Roedd eraill yn awgrymu y byddai hysbysiad cychwynnol, gan ddilyn gyda chadarnhad o'r dymuniad i barhau gyda'r ysgariad unwaith bod y cyfnod lleiaf wedi pasio, yn ddigon o dystiolaeth o fethiant anadferadwy. Mae'n ymddangos bod rhai pryderon wedi codi ynghylch lle, o ran byrder, ein bod wedi cyfeirio at y datganiad o fethiant anadferadwy i'r llys fel "hysbysiad" yn hytrach na deiseb neu gais, gan y gellir camddehongli'r term "hysbysiad" i olygu na fyddai hyn yn parhau i fod yn broses lys ffurfiol.

Nododd lawer o'r ymatebwyr bod **ffeithiau wedi'u seilio ar ymddygiad** yn achosi poen a gwrthdaro trwy roi "bai", sydd, mewn realiti, mewn llawer o achosion yn disgyn ar y ddwy ochr. Roedd Relate, y sefydliad adnabyddus sy'n ymdrin â chwmsela perthnasau, yn dadlau y byddai cael gwared ar y ffeithiau yn "creu budd mawr i les unigolion, plant a theuluoedd". Nododd Cafcass, sefydliad sydd â'i nod ar ddiogelu buddiannau plant sy'n destun i weithdrefnau mewn llys teulu, bod y gofynion presennol yn gallu cynyddu gwrthdaro rhwng rhieni, gan gael effeithiau negyddol ar ddatblygiad seicolegol eu plant a'u lles emosiynol. Dywedodd Cafcass y byddai'r cynnig hwn yn "helpu i symud y ffocws oddi wrth y bai ac ar fynd ati i wneud trefniadau ar gyfer plant a materion ariannol".

Dywedodd gweithwyr cyfreithiol proffesiynol bod y system bresennol yn creu amheuaeth, gyda ffeithiau amherthnasol neu ffug yn cael eu defnyddio i chwarae'r system ac i ddiwallu'r trothwy cyfreithiol. Nododd rhai y gall y rheini sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol fod o dan anfantais gan yr arfer hwn, gan nad ydynt, yn aml iawn, yn ymwybodol o'r ffeithiau y dibynnir arnynt ond yn berthnasol a ddylai'r ysgariad gael ei roi ai peidio: fel

arfer, nid ydynt yn cael unrhyw effaith ar unrhyw weithdrefnau cysylltiedig ar gyfer rhannu asedau ariannol neu ar gyfer trefniadau gyda phlant. Roedd y rheini oedd yn erbyn cael gwared ar y ffeithiau yn teimlo y byddai hyn yn galluogi pobl i gael ysgariad heb unrhyw gyfrifoldeb yn cael ei roi ar pam fod y briodas wedi dod i ben, ac y byddai'n dinistrio'r sefydliad priodasol ac yn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n cael ysgariad. Fel rydym yn egluro yn yr asesiad effaith, nid ydym yn disgwyl i'r gyfradd ysgaru gynyddu yn yr hirdymor, ond mae'n bosibl y bydd yna gynnydd yn y niferoedd yn ystod y cyfnod pontio yn nifer y rheini sy'n ceisio ysgariad.

Roedd rhai yn credu y byddai rhoi diwedd ar argaeledd y ffeithiau seiliedig ar ymddygiad yn cael gwared ar hawl partïon "dieuog" i enw'r parti "euog". Nid rôl y llys, fodd bynnag, yw barnu pwy oedd ar fai ar y briodas yn methu, ond i sicrhau bod y trothwy cyfreithiol ar gyfer methiant anadferadwy wedi'i gyrraedd. Hefyd, dywedodd grwpiau oedd yn cynrychioli dioddefwyr cam-drin domestig nad oedd yna unrhyw fudd i nodi'r rhesymau penodol dros geisio cael ysgariad ac y gall, yn wir, yn aml roi'r dioddefwr mewn perygl pellach, trwy gynyddu tensiynau a dial am honiadau ynghylch ymddygiad sydd wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r ysgariad.

Roedd rhai yn credu mewn cael gwared ar y ffeithiau seiliedig ar ymddygiad, ond yn credu bod yna resymau da dros gadw'r **ffeithiau seiliedig ar wahanu**, er mwyn sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei roi i geisio ysgariad cyn dechrau ar y broses gyfreithiol. Roedd eraill yn dadlau bod y ffeithiau hyn yn gwahaniaethu yn erbyn cyplau sy'n methu â fforddio i gynnal dau gartref heb gael gorchymyn gan y llys i rannu asedau.

### **Darparu opsiynau am weithdrefnau ysgaru unigol neu ar y cyd a chael gwared ar y cyfle i herio'r ysgariad**

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn a ddylid gwneud darpariaeth ar gyfer hysbysiad ar y cyd i'r ddau barti i'r briodas, ac a ddylid cael gwared ar y cyfle i herio'r ysgariad gan gynnwys unrhyw amgylchiadau eithriadol lle ddylai hyn barhau i fod yn opsiwn.

Roedd yna gefnogaeth gref dros **gyflwyno ceisiadau ar y cyd** fel symbol pwysig o wneud penderfyniad ar y cyd dros ysgaru, ac i annog cydweithredu adeiladol o ddechrau'r broses ysgaru. I deuluoedd sy'n gwneud trefniadau ar gyfer plant yn a thu allan i'r llys, awgrymodd Cafcass y gallai ceisiadau ar y cyd ddarparu sylfaen gryfach i gydweithredu o ran gwneud trefniadau ar gyfer plant. Mae rhai yn awgrymu y dylai'r partïon fod yn gallu cyfuno cais a ddechreuwyd fel cais unigol, neu i newid eu meddyliau a gadael cais ar y cyd.

Roedd yna gefnogaeth dros **gael gwared ar y gallu i herio** o fewn y sector cyfreithiol a grwpiau sy'n cynrychioli dioddefwyr cam-drin domestig, ond codwyd pryderon gan rai aelodau o'r grwpiau cyhoeddus a Christnogol. Nododd y rheini oedd yn cefnogi cael gwared ar y gallu hwn bod priodas yn dibynnu ar ddau berson i fod yn ymrwymedig iddo a bod defnyddio'r cyfle i'w herio yn aml ddim am geisio achub y briodas ond am herio'r ffeithiau honedig. Hefyd, gallai'r cyfle i herio gael ei gamdefnyddio fel ffordd faleisus o greu rhwystredigaeth neu oedi, neu fel cyfle i fargeinio. Roedd y rheini oedd yn gwrthwynebu cael gwared ar y gallu hwn yn erbyn yr hyn oedden nhw'n deimlo oedd yn ysgariad "unochrog" gan awgrymu bod risg o adael priod sy'n agored i niwed. Roedd eraill yn dadlau y dylai tegwch ganiatáu i bob parti gael dweud eu dweud ac y dylai y naill barti a'r llall gael cyfle i geisio cymodi neu gael cofnod wedi'i wneud nad eu dewis hwy oedd cael ysgariad.



Roedd yr **amgylchiadau eithriadol lle dylai'r ymateb allu herio'r ysgariad** a gafodd ei awgrymu yn bennaf yn ymwneud ag opsiynau nad oedd yn herio'r ysgariad ei hunan ond yn cynnwys y materion sylfaenol i'w codi mewn unrhyw gais i lys, materion fel capasiti cyfreitha, cais a orfodwyd neu gais ffug neu'r awdurdodaeth.

### Cyfnod lleiaf ar gyfer y broses ysgaru

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar yr amserlen ar gyfer y broses ysgaru gan gynwys ar y canlynol:

- a ddylid cadw'r gweaharddiad ar ysgariad o fewn y flwyddyn gyntaf o'r briodas
- a ddylid parhau â'r broses dau gam
- pa gyfnod lleiaf fyddai'n fwyaf priodol i leihau gwrthdaro yn ystod y broses ysgaru, sut dylid ei mesur, ac a ddylai gael ei lleihau neu ei hymestyn mewn rhai amgylchiadau

Roedd consensws eang dros gadw'r **gwaharddiad ar ysgariad** o fewn y flwyddyn gyntaf o'r briodas er mwyn sicrhau bod cyplau yn ystyried priodi fel ymrwymiad difrifol. Hefyd, roedd cefnogaeth dros gadw'r **broses dau gam** er mwyn caniatáu amser i adlewyrchu ac i wneud trefniadau.

Roedd yn amrywiaeth o sylwadau am y **cyfnod lleiaf**, er y consensws oedd y dylai'r amser gael ei fesur i gynnwys yr amser rhwng cyflwyno'r ddeiseb a'r datganiad nisi (yn hytrach na dim ond rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt), gan fod cyplau'n ystyried eu bod wedi ysgaru o gael y datganiad nisi. Roedd Relate yn dadlau y gallai hyn gefnogi cyfleoedd i gymodi drwy gael gwared ar unrhyw synnwyr bod yr ysgariad yn "anochel". Dywedodd llawer o'r grwpiau rhanddeiliaid bod chwe mis, ar y cyfan, yn ddigonol i ganiatáu ar gyfer ystyriaeth a threfniadau, ond y byddai cyfnodau hirach yn achosi caledi a gwrthdaro. Yn enwedig, awgrymodd y grwpiau sy'n helpu dioddefwyr cam-drin domestig y dylai'r cyfnod fod cyn fyrred â phosibl. Roedd y rheini oedd yn erbyn diwygio'r cynnig yn cynnig cyfnod isafswm o un i ddwy flynedd, gan ddibynnu a yw'r cais yn cael ei wneud yn unigol neu ar y cyd, neu a oes gan y cwpwl blant. Awgrymwyd rhai amgylchiadau penodol i hwyluso neu oedi'r ysgariad terfynol er, nododd eraill mai'r llys a ddylai fod â'r penderfyniad terfynol yn hyn o beth.

### Ystyriaethau cysylltiedig eraill

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar:

- a yw'r cyfnod lleiaf ar achosion dirymedd hefyd yn adlewyrchu'r cyfnodau isafswm diwygiedig mewn achosion o ysgariad a diddymu
- a ddylid cadw darpariaethau cysylltiol penodol
- a oes yna ystyriaethau pellach ynghylch effaith y newidiadau hyn.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu ymateb i'r cwestiwn ar **ddirymedd**. Roedd arbenigwyr ar ddirymedd o'r farn na ddylid ymestyn yr amserlenni hyn, oherwydd yr ystyriaethau cyfreithiol ar wahân. Mae achosion dirymedd yn cynnwys y rheini lle byddai cyfnod isafswm newydd yn amhriodol, fel mewn achosion o briodasau dan orfod.

Doedd yna ddim consensws o ran a ddylai **darpariaethau cysylltiol penodol** gael eu cadw. Dywedodd rhai yn y sector cyfreithiol bod y gofyniad i ddilysu eu bod wedi trafod y posibilrwydd o gymodi yn aneffeithiol, tra bod ymatebwyr eraill yn teimlo bod hwn yn gyfle defnyddiol i annog ystyried cymodi ac y dylid ei ymestyn i'r rheini sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Roedd yr **effeithiau potensial** positif a nodwyd yn cynnwys gwella lles cyplau sy'n ysgaru sydd eisiau symud ymlaen heb roi bai ar neb, ac i rieni, byddai hyn yn gwella eu gallu i ganolbwyntio ar anghenion eu plant; byddai symleiddio'r system yn ei gwneud hi'n haws i'w defnyddio; byddai o fudd i ddiodefwrwr cam-drin domestig, oedd yn cael eu hystyried gan rai i fod eisoes o dan anfantais anghyfartal y system. Roedd effeithiau negatif posibl yn awgrymu pryderon ynghylch sut mae priodas yn cael ei hystyried gan gymdeithas, a sut y gall arwain at gynnydd mewn cyfraddau ysgaru a gadael priod sy'n agored i niwed a phlant. Rydym wedi mynd i'r afael â phryderon ac wedi amlinellu'r sylfaen dystiolaeth ehangach yn ein asesiad effaith, sy'n cael ei chyhoeddi ar yr un pryd a'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd **barn eraill** yn cynnwys tra bo galw am y newid hwn i leihau gwrthdaro teuluol, mae'n bosibl nad yw'n ddigonol. Roedd rhai yn dadlau y byddai angen newidiadau ehangach o fewn y maes ysgaru a gwahanu, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth, er mwyn creu llai eto o wrthdaro ymhlith plant. Hefyd, awgrymwyd help yn gynnar i gyplau priod, cyn eu bod yn cyrraedd y pwynt o geisio cael ysgariad, ynghyd â help i baratoi ar gyfer priodas. Hefyd, mae newid i ddarpariaethau ariannol ar ysgariad wedi cael ei awgrymu gan y rheini sy'n ystyried anghydfodau ariannol fel ffynhonnell o wrthdaro rhwng cyplau sy'n ysgaru. Hefyd, awgrymwyd "procio" ar-lein er mwyn annog i wneud trefniadau ar gyfer plant, ynghyd â gwell system arwyddion ar gyfer opsiynau y tu allan i'r llys.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae'r Llywodraeth yn credu mewn pwysigrwydd perthnasau teuluol cryf ac yn credu bod gelyniaeth a gwrthdaro di-ddiwedd ond yn andwyol i les aelodau unigol o'r teulu, yn enwedig plant. Rydym yn deall yn iawn bod gan bobl ddiddordeb yn y gyfraith ar berthnasau teuluol a bod llawer o gyplau wedi gwneud ymrwymiad cydsyniol trwy briodas neu wedi ffurfio partneriaeth sifil. Bydd rhai ohonyn nhw ddim yn rhagweld y bydd eu perthynas gyfreithiol yn dod i ben ond bydd eraill yn mynd trwy ysgariad neu eisoes wedi cael ysgariad. Dyma pam ein bod wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Roeddem yn awyddus i glywed am brofiadau a deall barn amrywiaeth eang o bobl.

Felly, mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad, yn enwedig y rheini a roddodd eu hamser yn ateb rhoi o'r pwyntiau manwl i ni eu hystyried. Nid yw hi wedi bod yn bosibl i gydnabod yr holl unigolion a'r grwpiau hynny a roddodd ymatebion manwl i ni.

Rydym yn cydnabod bod materion o fewn cyfraith teulu yn gyhoeddus bwysig ac yn hynod bersonol. Felly, rydym wedi sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth ofalus i bob ymateb, ac yn **Atodiad A**, rydym yn crynhoi mewn mwy o fanylder yr hyn a ddywedwyd wrthym ni yn yr ymatebion i'n cynigion. Yn yr adran hon, rydym yn cyfeirio at rai o'r pwyntiau yr ydym wedi bod yn eu pwysu a mesur er mwyn llunio'r cynigion hyn ymhellach.

### Y gofynion cyfreithiol ar gyfer ysgariad

#### Cadw un sail yn unig dros ysgaru (cwestiwn 1)

Roedd papur ymgynghori'r Llywodraeth yn cynnig cadw methiant y tu hwnt i adfer fel yr unig sail dros ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil.<sup>18</sup> Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno.

Mae'r unig sail hwn dros ysgaru wedi bod yn rhan o gyfraith statud Cymru a Lloegr ers Deddf Diwygio Ysgariad 1969 ac fe gymeradwyodd y Llywodraeth ei barhad yn ystod Deddf Cyfraith Teulu 1996 yn dod i rym. Mae'r sail hwn wedi cael ei ystyried yn faith cyn bodolaeth y ddwy Ddeddf hyn, gan y Llywodraeth, Comisiwn y Gyfraith ac eraill. Mae'n angenrheidiol mewn llawer o awdurdodaethau, er gwaethaf unrhyw feini prawf tystiolaeth y maen nhw'n cael eu caniatáu i roi ysgariad. Mae'r Llywodraeth yn rhannu'r gred eang na ddylai'r penderfyniad i ddod â priodas i ben gael ei wneud heb ystyriaeth ddwys. **Felly, mae'r Lywodraeth yn parhau i gredu ei bod hi'n iawn i gadw methiant y tu hwnt i adfer fel yr unig sail dros roi ysgariad.** Mae parhau i roi lle canolog i gefnogi methiant anadferadwy yn cefnogi cred y Llywodraeth y dylai ysgariad barhau i ddim fod ar gael am resymau wacsaw neu oherwydd anawsterau neu heriau dros-dro y mae'r cwpwl yn eu hwynebu wrth geisio gwneud i'w priodas neu eu partneriaeth sifil weithio.

Fel i'r Llywodraeth amlinellu yn ei bapur ymgynghori, nid yw honiadau ynghylch ymddygiad priod o reidrwydd yn dystiolaeth mai nhw yw'r rheswm dros y briodas yn methu'n anadferadwy. Gall y cysylltiad rhwng y ffaith a ddefnyddir yn y ddeiseb ysgaru a'r

<sup>18</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(1); Deddf Partneriaeth Sifil 2004, adran 44(1).

methiant fod yn un hynod o agos. Mae hefyd yn tynnu sylw oddi wrth yr ymdrechion i gymodi a rhag cydweithredu o ran cytuno ar wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol.

### **Cael gwared ar y pum ffaith gyda datganiad o fethiant priodasol anadferadwy (cwestiwn 2)**

Fe wnaethom glywed barn gan y rheini sy'n ymwneud â chyplau sy'n ysgaru bod defnyddio un neu fwy o'r ffeithiau cefnogol ar y gorau yn ddiangen ac ar ei waethaf, yn andwyol o ran creu gwrthdaro. Fe nododd Cymdeithas Bar Cyfraith Teulu y byddai defnyddio ffeithiau seiliedig ar ymddygiad yn "pegynnu cyplau, gwaethygu drwgdeimlad ac anhapusrwydd, ac yn ei dro, yn effeithio ar unrhyw blant yn y briodas". Nododd grwpiau cynghori cyfreithiol eraill bod dryswch yn achosi i'w cleientiaid, gan mai prin iawn bod "bai" yn berthnasol mewn gweithdrefnau ategol. Roedd Relate, y sefydliad adnabyddus sy'n ymdrin â chwmsela perthnasau, yn dadlau y byddai cael gwared ar y ffeithiau yn "creu budd mawr i les unigolion, plant a theuluoedd". Nododd Cafcass, sefydliad sy'n gweithio i ddiogelu buddiannau plant sy'n destun i weithdrefnau mewn llys teulu, y gall y gofynion presennol gynyddu unrhyw wrthdaro rhwng rhieni, gan gael effeithiau negyddol ar ddatblygiad seicolegol eu plant a'u lles emosiynol. Dywedodd Cafcass y byddai ein cynnig ni yn "helpu i symud y ffocws oddi wrth y bai ac ar drefniadau ar gyfer plant a materion ariannol".

Rydym yn gwerthfawrogi bod rhai ymatebwyr yn credu bod partïon y "gwnaed cam â hwy", yn eu meddwl hwy, gael y cyfle i amlinellu hyn trwy ddefnyddio ffaith seiliedig ar ymddygiad, ond fe wnaethom ni hefyd glywed gan grwpiau oedd yn cynrychioli dioddefwyr cam-driniaeth domestig bod – ar gyfartaledd, gan ystyried yr effaith gyfreithiol gyfyngedig y gall hyn ei gael a'r perygl y gall gynyddu drwgdeimlad – ei fod yn ddiangen fel rhan o'r broses o geisio am ysgariad.

Hefyd, clywsom gan grwpiau sydd o blaid cael gwared ar ffeithiau seiliedig ar ymddygiad sydd â'r potensial i fod yn andwyol ond oedd yn erbyn cael gwared ar ffeithiau seiliedig ar wahanu, ar y sail bod y rhain yn sicrhau na ddylid mynd ati ar frys i wneud cais am ysgariad heb ei ystyried yn ddifrifol. Er ein bod yn cytuno bod angen ystyried y mater yn ddifrifol cyn terfynu'r ysgariad, nid ydym yn credu bod y gofyniad gwahanu yn deg i gyplau sy'n methu â fforddio'r broses, am resymau ymarferol ac ariannol, i wahanu heb gytuno ar y sefyllfa ariannol cyn ysgaru. Codwyd hyn fel pryder yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae'n adleisio canfyddiadau blaenorol gan Gomisiwn y Gyfraith, a ddaeth i'r canlyniad bod prawf llym o wahanu yn gweithio yn erbyn buddiannau o geisio cymodi.<sup>19</sup> Mae hefyd yn anwybyddu'r realiti bod, i lawer o gyplau, y penderfyniad i geisio cael ysgariad fel un sy'n cael ei ystyried yn ofalus ac sy'n benderfyniad sydd wedi cymryd cryn amser i'w gyrraedd erbyn y daw hi'n amser i gyflwyno'r ddeiseb. Mae'r opsiwn amgen i'r cyplau hyn i fyw "ar wahân" yn yr un tŷ yn gofyn am amodau byw anodd ac artiffisial. Yn flaenorol, darganfyddodd y Llywodraeth bod hyn yn "ddryslyd ac yn andwyol i blant".<sup>20</sup> Rydym yn credu y byddai cyflwyno cyfnod lleiaf ar gyfer y broses ysgaru yn broses sy'n deg i unrhyw gwpwl sy'n ysgaru, tra'n sicrhau bod y penderfyniad i ysgaru yn parhau i gael ei ystyried.

<sup>19</sup> Comisiwn y Gyfraith, The Ground for Divorce, Law Com No.192 (London: HMSO, 1990), para.2.12: "*It is unjust and discriminatory of the law to provide for a civilised 'no-fault' ground for divorce which, in practice, is denied to a large section of the population. A young mother with children living in a council house is obliged to rely on fault whether or not she wants to do so and irrespective of the damage it may do.*"

<sup>20</sup> Adran yr Arglwydd Ganghellor, *Looking to the Future: Mediation and the Ground for Divorce*, Command Paper Cm 2799 (London: HMSO, 1995), tud.11.

Fe wnaethom nodi yn y papur ymgynghori mai dim ond mewn achosion eithriadol y mae honiadau ynghylch ymddygiad yr ymatebwr neu yr eir ati i graffu ar honiadau ynghylch byw ar wahân wrth groesholi mewn gwrandawriad llys. Mae ymarferwyr cyfraith teulu sydd â phrofiad uniongyrchol o gefnogi partiön trwy'r broses gyfreithiol wedi cydnabod hyn yn helaeth ac, yn yr ymgynghoriad, wedi rhoi manylion defnyddiol ynghylch realiti sut mae'r broses gyfreithiol yn gweithio yn ymarferol.

Rydym yn awgrymu y dylai'r broses gyfreithiol o ddod â phriodas neu bartneriaeth sifil i ben ddechrau gyda datganiad bod y briodas neu'r bartneriaeth sifil wedi methu yn adferadwy. Rydym yn cyfeirio mewn manau yn y papur ymgynghori at hyn fel proses "hysbysu". Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cwestiynu pa rôl ddylai fod gan y llys yn y broses gyfreithiol o gael ysgariad heb bod yna ffeithiau cefnogol ar gael i'w hystyried. Mae ysgariad yn newid arwyddocaol i statws cyfreithiol sydd yn ei dro yn newid hawliau a chyfrifoldebau pobl. Mae'n rhaid i'r llys fod yn fodlon gyda nifer o feysydd, gan gynnwys bod ganddo'r awdurdodaeth i roi ysgariad, bod yna briodas gyfreithiol iddo ei ddiddymu a nad yw'r rhwystr statudol ar gael ysgariad o fewn y flwyddyn gyntaf o'r briodas yn berthnasol. Mae rhain yn amddiffynfeydd cyfreithiol pwysig. **Os yw'r amddiffynfeydd cyfreithiol hyn yn cael eu diwallu, rydym yn cynnig y dylai datganiad i'r llys gan un parti bod y briodas wedi methu'n adferadwy fod yn ddigonol ar ei ben ei hun i fodloni'r trothwy cyfreithiol ar gyfer cael ysgariad.**

## **Darparu opsiynau ar gyfer gweithdrefnau i ymgeisio am ysgariad yn unigol neu ar y cyd**

### **Darparu ar gyfer yr opsiwn o geisiadau ar y cyd (cwestiwn 3)**

Roedd yna gefnogaeth sylweddol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwygio'r broses gyfreithiol sy'n galluogi'r ysgariad i gael ei dechrau ar y cyd gan y ddau barti yn y briodas gan adlewyrchu ar y realiti i lawer o gyplau bod y penderfyniad i ysgaru yn un sy'n cael ei wneud ar y cyd. Bydd proses o'r fath yn fwy cytbwys a gallai fod yn ffafriol i ddull mwy cymodol er mwyn cytuno ar y trefniadau ar gyfer y dyfodol ynghylch arian ac unrhyw blant sydd yn y briodas.

Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau mai'r unig ffordd y dylai fod yn bosibl i gael ysgariad yw os yw'r ddau barti yn cytuno ac yn gwneud cais ar y cyd, gan ddadlau na ddylai ysgariad byth fod yn benderfyniad unigol. Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y mater hwn yn ofalus. Rydym yn glir na fyddai'n briodol i wrthod parti yr hawl i gael ysgariad os nad yw eu priod yn cytuno. Mae'r gofyniad y dylai ysgariad fod bod amser yn un ar y cyd ddim yn atal y briodas rhag torri i lawr ac ni fyddai'n atal un parti rhag dod â'r berthynas i ben mewn ystyriaeth ymarferol. Fe fyddai, fodd bynnag, yn golygu bod y parti sy'n parhau yn y berthynas gyfreithiol yn erbyn eu hewyllys heb unrhyw allu i geisio gorchmynion o ran rhannu'r asedau a heb unrhyw opsiynau ar gyfer ailbriodi yn y dyfodol. Am y rhesymau hyn, rydym wedi gwrthod y cynnig hwn.

**Wedi dweud hynny, mae'r Llywodraeth yn gweld gwerth mewn gwneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau am ysgariad ar y cyd pe byddai'r cwpwl yn dymuno hynny. Mae'r gallu lle mae un parti yn unig yn gallu ddechrau'r broses yn parhau. Felly, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno darpariaeth ar gyfer ceisiadau ar y cyd.** Mewn egwyddor, ein dull cyffredinol yw i alluogi pobl i wneud cais ar y cyd ar ddechrau'r gweithdrefnau. Hefyd, dylai'r broses ddarparu ar gyfer cais unigol fod yn rhan o gais ar y cyd lle mae'r parti arall i'r gweithdrefnau'n rhoi rhybudd o hyn i'r llys. Fel hyn, bydd y gyfraith yn gallu caniatáu dull mwy cyfeillgar i roi diwedd cyfreithiol i'r briodas. Awgrymodd

rhai ymatebwyr y gallai darparu ar gyfer ceisiadau ar y cyd helpu i newid barn poblogaidd bod yn rhaid i'r broses ysgaru fod yn un lle mae llawer o wrthdaro.

Mae cwestiwn cysylltiol yn codi ynghylch a ddylai'r gyfraith ganiatáu i gais ar y cyd droi yn gais unigol os yw un parti o ganlyniad yn tynnu eu cydsyniad yn ôl. Mae'n bosibl y gall yr ymgeisydd unigol dynnu eu deiseb ysgaru yn ôl ar unrhyw adeg cyn bod y datganiad nisi yn cael ei roi. Byddai'n ymddangos yn briodol i ganatau i barti i gais ar y cyd allu gwneud yr un peth ac i roi'r gallu i'r parti dynnu eu cais ar y cyd yn ôl. Yna, byddai'r cais yn parhau fel petai'r cais a gyflwynwyd wedi bod yn gais unigol o'r dechrau un, gan gydnabod y gwasanaeth.

Mae darparu ar gyfer cais ar y cyd yn golygu y byddai yna ymgeiswyr ar y cyd i'r gweithdrefnau yn hytrach nag ymgeisydd ac ymatebwr. Bydd angen rhoi ystyriaeth ddwys i'r weithdrefn a'r broses ysgaru ar gyfer ceisiadau ysgaru ar y cyd er mwyn mynd i'r afael, er enghraifft, a materion gweithdrefnol ynghylch sicrhau bod y ddau ymgeisydd yn ymwybodol yn ystod pob cam o'r gweithdrefnau.

#### *Diweddarau terminoleg*

Mae'n fwriad gennym foderneiddio'r termau a ddefnyddir o fewn y broses ysgaru fel y gellir gwneud y broses yn haws i'w defnyddio. Rydym wedi clywed bod termau fel "deisebwr", "datganiad nisi" a "datganiad absoliwt" yn gallu achosi dryswch a phryder. Rydym yn bwriadu alinio'r rhain gyda'r termau cyfatebol a ddefnyddir i ddiddymu partneriaethau sifil – termau fel "ymgeisydd", "gorchymyn amodol" a "gorchymyn terfynol", sy'n haws i'w deall.

### **Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr achos dros gael gwared ar iaith sydd wedi dyddio mewn deddfwriaeth ysgaru ac mae'n bwriadu moderneiddio'r iaith honno.**

#### **Cael gwared ar y cyfle i herio ac unrhyw eithriadau i hynny (cwestiynau 8 a 9)**

Yn y papur ymgynghori hwn, mae'r Llywodraeth wedi amlinellu ei resymau dros gynnig i gael gwared ar, fel rheol gyffredinol, y gallu i herio ysgariad. Mae'r gallu i herio yn cael effeithiau negyddol yn y rhan helaeth o weithdrefnau. Dim ond 2% o'r ymatebwyr a nododd eu bwriad i herio'r ysgariad ac mewn nifer fach iawn o'r achosion hyn mae'r ymatebion yn bwrw 'mlaen a'u bwriad yr holl ffordd i'r gwrandawriad yn y llys.<sup>21</sup> Yn y mwyafrif o achosion sydd yn y lle cyntaf yn cael eu herio, mae'r anghytundeb ynghylch yr honiadau y mae'r deisebwr wedi'u gwneud i roi tystiolaeth am ffaith benodol: dim ond mewn ychydig iawn o achosion o'r fath y mae herio ysgariad yn fater mae'r ffaith bod nad yw'r briodas wedi methu yn adferadwy yn cael ei wrthwynebu.<sup>22</sup>

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi amlinellu ei bryderon bod y gallu i herio ysgariad yn gyfle i ymatebwyr difriol barhau i arfer gorfodaeth a rheolaeth o'u priod yn ystod y broses gyfreithiol.

Roeddem hefyd yn ymwybodol bod rhai pobl a grwpiau – o ran egwyddor - yn gwrthod cael gwared ar y gallu i herio. Hwn oedd y cynnig lle roedd gan y mwyafrif o bobl farn glir

<sup>21</sup> Nodwyd data heb ei gyhoeddi gan HMCTS yn [2017] Owens v Owens EWCA Civ 182, para.98. Ar gael yn <https://www.judiciary.uk/judgments/tini-owens-v-hugh-john-owens/>. Datgenir yn y paragraff hwn yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, rhoddwyd rhybudd o fwriad i amddiffyn i 2,600 o'r 113,996 o'r deisebau yng Nghymru a Lloegr a ddaeth i law (tua 2.28%); dim ond 760 ohonynt y ffeiliwyd ateb ar eu cyfer (0.67%).

<sup>22</sup> Liz Trinder a Mark Sefton, *No Contest: Defended Divorce in England and Wales* (London: Nuffield Foundation, 2018), tud.40. Mewn dim ond 12% o sampl o achosion a gafodd eu hamddiffyn lle roedd yr ymatebwr yn anghytuno bod y berthynas ar ben.

iawn yn ei gylch. Mae'r modd y cafodd y sylwadau hynny eu rhannu yn adlewyrchu'n bennaf y gwahanol gysyniadau o briodas. I'r rheini sy'n ystyried bod priodas yn gontract am oes, a bod yn well ganddynt beidio a'i diddymu o gwbl, roedd y cynnig yn creu pryder. I eraill oedd yn ystyried priodas fel undeb gwirfoddol sy'n galw am gydsyniad a chyd-ddibyniaeth mewn perthynas ac na ddylai un parti gael ei glymu'n anwirfoddol i'r person arall, fe groesawyd y cynnig.

Rydym yn cydnabod ei bod hi'n ymddangos ar yr olwg gyntaf yn annheg bod priodas yn gallu dod i ben yn gyfreithiol heb fod y ddau barti yn cytuno iddo. O dan y gyfraith bresennol, fodd bynnag, bydd y llys yn rhoi datganiad o ysgariad os yw'r ffaith neu'r ffeithiau yr honnir wedi cael eu gwireddu. Yr hyn nad yw'r llys erioed wedi gallu ei wneud yw dal y datganiad yn ôl dim ond oherwydd bod yr ymateb yn dymuno aros yn y briodas. Os byddai ysgariad yn gallu cael ei wrthod oherwydd bod yr ymatebwyr yn teimlo bod llw priodas yn anhoradwy, byddai hynny'n golygu bod y deisebwr yn gaeth i briodas nad ydynt yn dymuno bod yn rhan ohoni mwyach â phriod y maen nhw wedi, i raddau helaeth, rhoi'r gorau i unrhyw gyfrifoldebau moesol.

Roedd rhai ymatebwyr oedd yn gwrthwynebu cael gwared ar y gallu i herio'r ysgariad yn codi pryderon ynghylch priod oedd yn agored i niwed, am un rheswm neu'i gilydd. Cododd rhai'r enghraifft o ymatebwyr oedd yn cael gofal meddygol. Yn yr enghraifft hwn, fe wnaethom gydnabod y posibilrwydd y gall sefyllfa o'r fath greu hyd yn oed mwy o drallod i'r ymatebwr. Wedi dweud hynny, gallai ymatebwr o'r fath fod mewn sefyllfa well o ran yr ysgariad pe byddai'r deisebwr, yn syml, wedi cerdded allan ar y briodas, gan fod ysgariad yn caniatáu'r llys i wneud gorchymyn ar gyfer darpariaethau ariannol ar gyfer y dyfodol.<sup>23</sup> Pan maen gwneud hyn, mae gan y llys ddyletswydd statudol i ystyried nifer y materion gan gynnwys anabledd corfforol mewn feddyliol ac anghenion ariannol, goblygiadau a chyfrifoldebau bob parti.

Mae gallu'r llys i ddarparu ar gyfer gorchymyn ariannol ar gyfer ymatebwyr sy'n agored i niwed hefyd yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan rai ymatebwyr ynghylch cael gwared ar y ddarpariaeth bresennol (sy'n berthnasol i ysgariad sy'n dibynnu ar wahanu 5 mlynedd) i wrthwynebu rhoi datganiad o ysgariad pe byddai yn achosi caledi ariannol difrifol neu fath arall o galedi i'r ymatebwr.<sup>24</sup> Fel arfer, mae hyn yn gysylltiedig â chaledi ariannol. Rydym yn credu bod angen diogelwch mewn achosion o'r fath y gellir eu datrys o dan hyblygrwydd presennol y llys wrth benderfynu ar ddarpariaeth ariannol ynghylch ysgariad, neu trwy oedi rhoi'r datganiad absoliwt ac felly o'r farn na ddylai atal yr ysgariad rhag digwydd.

Fe wnaeth rhai ymatebwyr godi enghraifft yr ymatebwr – neu'r ymgeisydd i'r perwyl hwnnw – gyda llai o allu i ddeall y broses gyfreithiol. O dan y cynnig, fel nawr, byddai gan y llys yr hawl i oedi'r gweithdrefnau neu i benodi cyfaill cyfreitha.

**Ym mhob achos, gall cais am ysgariad ddal i gael ei herio ar sail yr awdurdodaeth, dilysrwydd y briodas, twyll neu orfodaeth a chydymffurfiaeth gweithdrefnol.** Mae pŵer y llys i gyfeirio materion i Broctor y Frenhines hefyd yn cryfhau'r amddiffyniad hwn.

Fel y'i nodwyd yn nedfryd y Goruchaf Lys yn achos Owens v Owens, mae ysgariad sy'n cael ei herio wedi cael eu herio yn llwyddiannus gan lysoedd apeliadol mewn dim ond

<sup>23</sup> Gall y llys orchymyn darpariaeth ariannol yn ystod y briodas os oes un o'r partion wedi methu â chynnal y parti arall neu unrhyw blentyn i'r teulu. Gellir gwneud ceisiadau o dan amrywiaeth o ddarpariaethau statudol (fel adran 27 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973), ond nid oes gan y gorchymynion ariannol sydd ar gael y graddau cyflawn o'r rheini sydd ar gael ar ysgariad.

<sup>24</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 5(1).

ychydig iawn o achosion a byth oherwydd bod y person oedd yn herio'r ysgariad ddim eisiau terfynu'r briodas ond oherwydd, er enghraifft, nid oedd modd cyfiawnhau yn gyfreithiol yr honiadau penodol. Dyw'r gallu presennol i herio felly ddim yn atalydd effeithiol o ysgariad ac nid yw'n gymorth i gymodi ychwaith. Mae hefyd yn cyflwyno neu'n gwaethygu gwrthdaro parhaus a gall cyflawnwyr cam-driniaeth domestig fanteisio arno. Rydym wedi cael llawer o gefnogaeth gan grwpiau oedd yn helpu dioddefwyr cam-drin domestig drwy gael gwared ar y llwybr cyfreithiol hwn. **Felly, mae'r Llywodraeth yn parhau i gredu bod y gallu i herio ysgariad ar seiliau eraill, fel anghytuno gyda phenderfyniad y parti arall i ysgaru, ddim mewn unrhyw ffordd o fudd u unrhyw un o'r partion.**

Wedi dweud hynny, mae'r Llywodraeth yn deall bod cynnig i gael gwared ar y gallu i herio wedi creu amheuan ymysg llawer o bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae'r Llywodraeth yn rhannu eu cred ym mhwystrwydd cymdeithasol a theuluol priodas ond yn wahanol iddyn nhw o ran deall pwysigrwydd y gallu i herio ysgariad a sut mae'n gweithio yn ymarferol. Gallai cyflwyno'r posibilrwydd i wneud cais ar y cyd neu gais unigol pellach ddarparu ar gyfer ffurf gyfyngedig o anghydweld i alluogi priod y mae am i gofnod gael ei wneud bod y penderfyniad i ysgaru ddim yn un â wnaed ar y cyd. **Fodd bynnag, bydd y Llywodraeth yn parhau i archwilio a ddylid cryfhau'r amddiffyniadau presennol ar gyfer yr ymatebwyr i ddeiseb ysgaru.**

## Cyfnod lleiaf ar gyfer y broses ysgaru

### Cadw'r gwaharddiad ar ddeisebau ysgaru yn y flwyddyn gyntaf (cwestiwn 10)

Yn ei ymgynghoriad, fe gynigiodd y Llywodraeth i gadw'r gwaharddiad i ysgaru o fewn blwyddyn gyntaf y briodas.<sup>25</sup> Roeddem ni'n dweud bod hyn yn fesur pwysig sy'n sail i bwysigrwydd priodas. O dan y gyfraith bresennol, mae hyn yn rwystr pendant heb unrhyw amgylchiadau eithriadol ar gael. Dyw rhwystr o'r fath ddim yn gyffredin mewn awdurdodaethau eraill. Fel inni egluro yn y papur ymgynghori, cafodd y rhwystr (yn wreiddiol yn dair mlynedd gyda rhai eithriadau) ei gyflwyno dim ond pan ddaeth Deddf Achosion Priodasol 1937 i rym. Lleihawyd hyd y gwaharddiad i flwyddyn pan ddaeth Deddf Priodasol a Gweithdrefnau Teuluol 1984 i rym a wnaeth hefyd gael gwared ar unrhyw eithriadau. Dilynwyd hyn gydag argymhelliad gan Gomisiwn y Gyfraith.<sup>26</sup>

Dyweddodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod y rhwystr ddim bellach yn angenrheidiol gan fod cyplau yn dueddol o gyd-fyw cyn priodi neu ffurfio partneriaeth sifil. Fe gyflwynodd yr ymatebwyr hyn ddadl sy'n cyflymu ysgariad yn seiliedig ar newid sydyn yn y berthynas cyd-fyw cyn priodas felly yn gynyddol annhebygol.

Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad am bwysigrwydd y sefydliad priodasol a'i bod hi'n bwysig cadw'r rhwystr hwn er mwyn atal y cyfle i gyplau sydd newydd briodi weithio ar addasu i fywyd priodasol ac i oroesi unrhyw broblemau cynnar. Roedd rhai yn dweud am eu profiadau personol gan ddweud bod, wedi gwneud yr ymdrech i oroesi'r problemau cynnar hyn, eu bod wedi mynd ymlaen i gael priodas gryf a hirhoedlog. Byddai cael gwared ar y rhwystr yn arwain at lawer mwy o briodasau yn methu yn y camau cynnar gan ei bod hi'n rhy hawdd i "roi'r ffidil yn y to". Roedd rhai

<sup>25</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 3(1). Mae Adran 41(1) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 yn rhwystro ceisiadau ar gyfer gorchmynion diddymu "before the end of the period of 1 year from the date of the formation of the civil partnership".

<sup>26</sup> Comisiwn y Gyfraith, *Time Restrictions on Presentation of Divorce and Nullity Petitions*, Law Com. Rhif.116, Command Paper 513 (London: HMSO, 1982), tud.12.



ymatebwyr yn credu y dylid ymestyn y gwaharddiad, rhai yn dweud hyd at dair blynedd, oedd y sefyllfa flaenorol, neu i hyd yn oed pum mlynedd neu'n hirach na hynny.

Roedd rhai ymatebwyr, fodd bynnag, yn teimlo y dylid cadw at y gwaharddiad un flwyddyn ond y dylai eithriadau gael eu darparu pan mae priod yn ei gael yn euog o drosedd ddifrifol ac mewn achosion o gam-drin domestig.

Er ein bod yn deall yr achos dros helpu dioddefwyr cam-drin domestig i ddod â'r berthynas i ben yn gyfreithiol gyda phriod difriol, rydym yn nodi bod diogelwch cyfreithiol yn cael ei roi trwy amrywiaeth o orchmynion diogelu sydd eisoes yn bodoli i helpu dioddefwyr ar unrhyw amser yn y briodas (er enghraifft, gorchmynion peidio ag ymyrryd â gorchmynion meddiannaeth,<sup>27</sup> a'r gorchmynion diogelu rhag cam-drin domestig y mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u cynnig<sup>28</sup>).

Gallai'r ddarpariaeth ar gyfer y maen prawf eithriad ailgyflwyno problemau sy'n cael eu nodi gan y system gyfredol lle gall honiadau gael dylanwad, eu cwestiynau a'u defnyddio gan bartïon i fargeinio dros y sefyllfa. Mae hyn yn mynd yn groes i'n hamcanion i gael gwared ar ffynonellau o wrthdaro ac i leihau natur wrthwynebus y broses gyfreithiol.

**Ar y cyfan, mae'r Llywodraeth yn credu bod gan y gwaharddiad ddiben defnyddiol ac y dylid ei gadw heb eithriad. Fe fyddwn, fodd bynnag, yn archwilio ymhellach y materion o gyflymu'r cyfnod lleiaf.**

#### **Cadw'r broses datganiad dau gam (cwestiwn 4)**

Fe gynigiodd y Llywodraeth yn ei bapur ymgynghori i gadw'r broses ddau gam o'r datganiad ysgariad. Ar hyn o bryd, mae'r llys yn rhoi'r datganiad yn y lle cyntaf fel datganiad nisi – rhoi cydnabyddiaeth bod y briodas wedi methu yn anadferadwy – ac ni ellir ei wneud yn absoliwt neu bod cyfnod o chwe wythnos wedi pasio o roi'r datganiad nisi. Dim ond ar y pwynt hwn o'r datganiad absoliwt y mae'r briodas yn dod i ben yn gyfreithiol. Mae'n rhaid gwneud cais am y ddau gam o'r datganiad o ysgariad.

Fe wnaethom resymu bod y broses ddau gam yn rhoi cam pwysig rhwng y camau o'r datganiad, i'r cyplau allu ystyried goblygiadau'r ysgariad ac i'r llys archwilio unrhyw faterion neu eu cyfeirio at Broctor y Frenhines (sydd â'r pŵer i "ddangos achos" yn erbyn rhoi'r datganiad, os, er enghraifft, yr amheuir bod y ddeiseb yn ffug).

Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd cefnogaeth ar gyfer y dull hwn er mwyn rhoi cyfle i gyplau adlewyrchu a rhoi amser iddyn nhw wneud trefniadau. Hefyd, fe wnaethom ni glywed dadleuon da dros ddisodli'r broses datganiad dau gam gyda un datganiad, terfynol. Roedd y datganiad dau gam, yn ôl rhai pobl, yn bennaf yn nodwedd o'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr a heb gael ei hystyried yn angenrheidiol yn y rhan fwyaf o awdurdodaethau. Hefyd, byddai'n camarwain pobl i feddwl bod y datganiad nisi yn golygu diwedd cyfreithiol i'r briodas a bod ymdrechion i gymodi yn ystod y cam hwn felly yn ofer. Byddai'r cyfle hwn am gamgymeriad o bosibl yn llai i bartneriaid sifil, y byddai enw gorchymyn amodol (yn gyfwerth i ddatganiad nisi) yn rhoi arwydd cliriach o'i natur. Yn achos ysgariad a diddymu partneriaeth sifil, nid oes yna unrhyw ysgogiad yn y broses lys i ymgeisio am y datganiad neu'r gorchymyn i'w derfynu ar ôl chwe wythnos. Wedi dweud hynny, dyw'r diwygiad y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig ddim yn golygu ail-lunio cyfraith

<sup>27</sup> Gall gorchmynion meddiant, er enghraifft, gynnwys gofyniad bod un o'r pâr yn parhau i dalu rhent neu forgais ar yr eiddo.

<sup>28</sup> Bydd y gorchmynion hyn wedi cael eu cynnig fel rhan o'r Bil Cam-drin Domestig, sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-consultation-response-and-draft-bill>

ysgariad mewn dull radical ond yn lle hynny, gwneud newid cynyddol fydd yn helpu teuluoedd i ddygymod â'r broses gyfreithiol pan nad oes modd adfer eu priodas.

**Rydym yn credu bod y broses dau gam yn parhau i fod yn ddefnyddiol i gynnig gwiriad ychwanegol wrth wneud y penderfyniad i ysgaru, i gyplau i ailystyried ac i'r llys ymdrin ag unrhyw achosion sydd yn eu tyb hwy yn cam-drin y broses.** Mae'r broses dau gam, sydd angen cyfanswm o dri chais ar wahân yn ystod cam cyflwyno'r ddeiseb, nisi ac absoliwt yn parhau i ddarparu lefel uchel o ddiogelwch nag y byddai yn y broses flaenorol oedd a llai o gamau neu lle roedd y datganiadau yn cael eu rhoi neu eu gwneud yn absoliwt yn awtomatig.

Mae'r broses gyfredol yn caniatáu dim ond i'r deisebwr ymgeisio am y datganiad yn ystod y cam datganiad nisi yn unig. Gall un o'r partïon ymgeisio am ddatganiad i gael ei wneud yn absoliwt ond mae'n rhaid i'r ymatebwr aros am dri mis cyn ymgeisio amdano fel y gellir ei wneud yn absoliwt (os nad yw'r deisebwr eisoes wedi gwneud hynny) yn dilyn ei gyflwyno fel y datganiad nisi. Bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth bellach i'r gwahaniaeth hwn, gan gynnwys sut y byddai'n gweithio pe bai'r cais gwreiddiol wedi cael ei wneud ar y cyd.

### **Cyflwyno cyfnod lleiaf ac unrhyw eithriadau i hynny (cwestiynau 5 a 6)**

Fe gynigiodd y Llywodraeth yn ei bapur ymgynghori gyflwyno cyfnod lleiaf ar gyfer y broses ysgaru, er mwyn rhoi digon o amser i gyplau ystyried goblygiadau'r penderfyniad i ysgaru ac i gytuno ar drefniadau ymarferol ar gyfer y dyfodol, iddyn nhw ac ar gyfer unrhyw blant. Fe wnaethom ni ofyn am farn ar fanylder hwn, fel pryd y dylai'r broses ddechrau a phryd ddylai dod i ben, ei hyd, ac unrhyw eithriadau y dylid darparu ar eu cyfer. Hefyd, fe wnaethom ni nodi nad yw'r broses gyfredol yn nodi unrhyw gyfnod penodol rhwng y ddeiseb a'r datganiad nisi (sydd, yn ymarferol, yn dibynnu ar nifer o amrywiaethau), ond nid yw hyn yn nodi cyfnod lleiaf cyfreithiol o chwe wythnos rhwng rhoi'r datganiad nisi a'r datganiad absoliwt. Roeddem yn awyddus i brofi cynnig o ymestyn y cyfnod lleiaf presennol hwn.

#### *Y pwynt y mae'r cyfnod lleiaf yn dechrau*

Y prif newid yn dilyn yr ymgynghoriad yw sut mae'r Llywodraeth yn credu y dylid mesur y cyfnod lleiaf. Y consensws cyffredinol oedd na fyddai dechrau'r amserlen yn ystod y datganiad nisi yn ddefnyddiol am nifer o resymau. Fe wnaethom glywed bod llawer o gyplau yn defnyddio datganiad nisi y llys fel arwydd bod y briodas wedi dod i ben yn swyddogol. Gan fod hyn yn gwneud i'r partïon deimlo eu bod wedi ysgaru, mae cymodi yn dilyn y cam hwn yn hynod annhebygol. Hefyd, mae'r amser rhwng y ddeiseb a'r datganiad nisi yn amrywio'n fawr yn ymarferol a gellir ei oedi os nad yw'r ymatebwr yn cydnabod gwasanaeth y ddeiseb (gan nad oes modd dod o hyd iddyn nhw neu mae nhw'n anfodlon cymryd rhan yn y gweithdrefnau cyfreithiol). Mae hyn yn ychwanegu elfen o ansicrwydd i'r partïon. Hefyd, rydym yn gwybod bod digideiddio'r broses ysgaru yn debygol o leihau'r amser rhwng y ddeiseb a'r datganiad nisi, ac rydym yn bryderus y gallai hyn arwain at rai partïon yn rhuthro i gael ysgariad cyn ystyried yn llawn yr opsiwn i gymodi.

**Bydd y Llywodraeth yn dechrau ar y cyfnod lleiaf ar ddechrau'r broses llys fel ei fod yn dechrau cyn bod y llys y rhoi'r datganiad cychwynnol.** Rydym yn credu y byddai hyn yn cefnogi'r amcan yn well er mwyn sicrhau bod y penderfyniad i ysgaru yn parhau i fod yn un sy'n cael ei ystyried yn ddwys, gan ddarparu cyfleoedd i gyplau newid cyfeiriad. Byddai hefyd yn cefnogi'r amcan i wneud y broses gyfreithiol yn dryloyw ac yn haws i'w defnyddio, gan roi mwy o eglurder i gyplau sy'n ysgaru ynghylch amserlenni ar gyfer y

broses gyfreithiol gyfan o'i dechrau. Gallai hyn greu gwell canlyniadau i oedolion a'u plant, drwy fanteisio mwy ar y cyfle i'r partïon gytuno ar wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol cyn bod yr ysgariad yn cael ei derfynu.

Roedd yr union bwynt dechrau yn agored i drafodaeth. Fe wnaethom glywed dadleuon pwysig y byddai'n anghyfiawn i ddechrau'r cloc o'r amser y cyflwynir y cais cychwynnol os nad oedd yr ymatebwr wedi cael y papurau yn gyflym neu ei bod hi'n wirioneddol amhosib dod o hyd iddo am sawl mis. Rydym wedi clywed am enghreifftiau o awdurdodaethau eraill sydd â chyfnodau lleiaf ar waith sy'n osgoi hynny: maen nhw'n dechrau' ar yr amserlen o'r dyddiad y mae'r ymatebwr yn cydnabod y cais, neu, o fethu â gwneud hynny, y dyddiad y mae tystiolaeth y dylai'r ymatebwr fod yn ymwybodol o'r cais ("gwasanaeth effeithiol" neu "gwasanaeth tybiedig")<sup>29</sup>. Wedi dweud hyn, tra bod yna weithdrefnau cyfredol ar gyfer y llys i roi gwasanaeth tybiedig neu i gael gwared ar y gwasanaeth hwn yng Nghymru a Lloegr, gall y prosesau hyn fod yn faith iawn. Mae'n gofyn am geisiadau ar wahân i'r llys a gall fod yn anodd i bobl eu deall.

Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw achosion o dan y gyfraith bresennol lle mae'r cais yn un annisgwyl, ac rydym yn credu bod ein cynnig ni yn cynnig cyfnod mwy pendant i ddod i delerau â bwriad y gweithdrefnau. Wedi dweud hynny, gall dechrau'r cloc o'r foment y mae'r ymatebwr yn cydnabod y ddeiseb annog priod anghydweithredol i oedi'r ysgariad. Byddai'n galluogi'r ymatebwr i reoli'r amserlen, ac felly, gallai fod yn arbennig o niweidiol mewn achosion lle mae'r ymgeisydd yn dioddef cam-drin domestig. Rydym yn glir y dylai ein holl gynigion gael eu hystyried yn sgil yr amcan hwn a lleihau cyfleoedd i gamddefnyddio'r broses gyfreithiol gan gyflawnwyr fel ffordd o gyflawni rhagor o gamdriniaeth.

Rydym yn credu y byddai darparu cyfnod lleiaf yn gwneud y broses yn fwy clir, tryloyw ac yn haws i'w defnyddio pe byddai'n dechrau ar bwynt penodol o ddechrau'r broses gyfreithiol ym mhob achos. Am y rheswm hwn, **byddwn yn cyflwyno cynigion i gyflwyno cyfnod lleiaf sy'n dechrau pan mae'r cais cychwynnol yn cael ei gyflwyno**. Byddwn yn archwilio ymhellach y goblygiadau o'r cyfnod leiaf hwn mewn achosion lle mae yna anawsterau gwasanaeth. Yr un fath a'r sefyllfa fel ag y mai, ni fydd modd i geisiadau gael eu symud ymlaen i'r cam datganiad nisi heb dderbyn tystiolaeth boddhaol o wasanaeth (gan gynnwys lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio neu fe geir gwared ar y gwasanaeth).

#### *Y pwynt y mae'r cyfnod lleiaf yn dod i ben*

Rydym wedi clywed barn y byddai cyfnod lleiaf ar gyfer adlewyrchu yn dod i ben pan roddir y datganiad nisi, y pwynt lle mae'r ddau barti yn teimlo eu bod wedi ysgaru. Wedi dweud hynny, yn gyffredinol, roedd yna gefnogaeth gan weithwyr cyfraith teulu proffesiynol i gadw'r cyfnod lleiaf yn glir o chwe wythnos rhwng y camau datganiad at ddibenion ar wahân: mae rhain yn rhoi cyfle i greu gorchmynion ariannol, rhoi cyfle i rai cyplau derfynu datrysiad crefyddol os yw hyn yn angenrheidiol, ac i ganiatáu i gyfeirio unrhyw faterion i Broctor y Frenhines. Fe nodwyd rhai pryderon gan rai partïon, yn enwedig y rheini oedd heb gael cyngor cyfreithiol, eu bod ddim yn gwybod bod yn rhaid gwneud y datganiad yn absoliwt. **O gadw'r broses ddatganiad dau gam, rydym yn credu y byddai cyfnod lleiaf yn dod i ben o gyflwyno'r datganiad terfynol. Byddai hyn yn rhoi eglurder i gyplau sy'n ysgaru ynghylch y pwynt y mae eu ysgariad yn derfynol.**

<sup>29</sup> Jens Scherpe a Liz Trinder, *Reforming the Ground for Divorce: Experiences from Other Jurisdictions* (London: Nuffield Foundation, 2019).

Fel gyda'r system bresennol, rydym yn credu na ddylid gwneud y datganiad absoliwt yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod lleiaf. Rydym wedi clywed bod yr ail-gadarnhau sy'n angenrheidiol yn sgil y broses gyfredol – sy'n cael ei disgrifio fel “triple opt-in”, sy'n galw am wneud cais yn ystod y ddeiseb, ar gyfer y datganiad nisi ac ar gyfer y datganiad absoliwt – yn anarferol pan gaiff ei gymharu gydag awdurdodaethau rhyngwladol. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys un ai un neu ddau gam actif. Fodd bynnag, rydym am roi cyfleoedd i newid cyfeiriad fel bod y penderfyniad o ysgaru yn parhau i gael ei ystyried. **Rydym yn credu ei bod hi'n anghywir i gadw'r tri phwynt penderfynu hyn ar gyfer yr ymgeiswyr gan ei fod yn cadw amddiffynfeydd pwysig mewn lle yn y broses gyfredol ac mae disgwyliad ar yr ymgeisydd i gadarnhau ac ail gadarnhau'r cais gwreiddiol.**

### *Hyd y cyfnod lleiaf*

Fe wnaethom glywed amrywiaeth o farn ynghylch beth ddylai hyd y cyfnod lleiaf fod. Roedd y rhain yn adlewyrchu barn gwahanol bobl ar y rôl y dylai'r gyfraith ei chwarae pan mae unigolyn neu gwpwl yn penderfynu ysgaru, ac a ddylai cyfnod lleiaf roi amser i adlewyrchu neu amser i wneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Fe wnaethom glywed bod llawer o gyplau ar y cyd yn cymryd amser cyn cymryd y penderfyniad anodd i gyflwyno'r cais ac fe wnaethom glywed am yr anawsterau a achosir pan mae'r cais yn annisgwyl gan un parti sydd o bosibl angen amser cyn bod yn rhaid iddyn nhw wneud penderfyniadau ynghylch y dyfodol. Fe nododd sefydliadau cefnogi perthnasol nad oes yna un amserlen ddelfrydol ar gyfer cyplau a theuluoedd i ddatrys problemau, er y gallai fod o fudd i gyplau gael amser digonol i adlewyrchu, amser ddylai fod yn hirach na chwe wythnos.

Y realiti yw bod cyplau yn ysgaru am bob math o wahanol resymau ac mae'n rhaid i'r gyfraith greu un fframwaith sy'n diwallu anghenion pawb. Mae tystiolaeth gan brosesau cyfreithiol rhyngwladol sydd dim yn cynnwys yr elfen “bai” yn dangos amrywiaeth o ran hyd a phwrpas cyfnod amser o chwe mis a'i fod yr un fath â'r hyd yn y Ffindir, Sweden a California, a'i fod yn hirach nag yn Sbaen a Colorado, ac yn fyrrach na'r cyfnodau gwahanu un flwyddyn lleiafswm yn yr Almaen, Awstralia a Seland Newydd.<sup>30</sup> Yn ein ymgynghoriad, roedd llawer o sefydliadau pwysig – ar y cyfan – yn cytuno bod chwe mis yn gyfnod rhesymol i ddiwallu anghenion emosiynol ac ymarferol cyplau sy'n ysgaru ond yn nodi y gallai problemau godi pe byddai'r cyfnod yn hirach. Roedd hyn yn cael ei awgrymu yn enwedig mewn achosion lle mae cyplau wedi bod ar wahân ers amser hir cyn gwneud y cais, lle mae yna blant sy'n cael budd o sicrwydd a sefydlogrwydd, neu lle mae cam-drin domestig yn bodoli.

Rydym hefyd wedi ystyried dadleuon ynghylch effeithiau ariannol canlyniadol posibl ar gyplau sy'n ysgaru o ganlyniad i gyflwyno cyfnod lleiaf hir. Codwyd rhai pryderon ynghylch cyflwyno oedi i ddatrys perthnasau ariannol allai fod yn angenrheidiol er mwyn byw mewn dau gartref ar wahân. Rydym yn cydnabod y gall y llys wneud y rhan fwyaf o orchmynion ariannol dim ond unwaith mae'r datganiad nisi wedi cael ei gyflwyno, ac y gall y rhain ddod i fodolaeth unwaith y daw'r datganiad absoliwt i rym yn unig. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae yna fwy o angen brys am ddarpariaeth ariannol cyn y gwneir yr ysgariad yn derfynol, mae yna eisoes ddarpariaeth i'r llys wneud gorchmynion dros-dro.<sup>31</sup> Mewn achosion eraill, rydym yn credu bod, lle mae'n briodol, yr amser ychwanegol cyn y datganiad nisi y gellir manteisio mwy ar y cyfle i'r partion gytuno ar gynlluniau i wneud trefniadau ariannol. Gallai hyn ddiogelu yn erbyn amgylchiadau andwyol terfynu ysgariad

<sup>30</sup> Jens Scherpe a Liz Trinder, *Reforming the Ground for Divorce: Experiences from Other Jurisdictions*

<sup>31</sup> Mae Adran 22 o Ddeddf Achosion Priodasol 1973 yn caniatáu i'r llys “make an order for maintenance pending suit”, er enghraifft, bod un priod yn gwneud taliad misol i'r llall tra bo'r ysgariad yn mynd rhagddo.

tra bod yna faterion ariannol heb eu penderfynu, pethau fel hawliau rhannu pensiwn.<sup>32</sup>

**Rydym yn credu bod darparu cyfnod lleiaf o hyd digonol yn rhoi mwy o gyfle i gyplau sy'n ysgaru gytuno ar drefniadau pwysig ar gyfer y dyfodol.**

Yn yr un modd, os oes gan y cyplau sy'n ysgaru blant, mae'r ddarpariaeth o amser digonol yn gallu bod yn ddefnyddiol i annog y partion i ystyried ac i gytuno ar y trefniadau ar gyfer y plant. Dengys ymchwil bod angen amser ar gyplau sy'n gwahanu i ddeall eu hunain y cymorth sydd ar gael i ddod i gytundeb neu i ddatrys opsiynau gwrthdaro teuluol os ydyn nhw'n cael anhawster yn hyn o beth fel y gallan nhw wneud y penderfyniadau priodol a pharatoi ar eu cyfer.<sup>33</sup> Dylai hyn fod yn gytbwys ag unrhyw angen y mae grwpiau sy'n gweithio gyda phlant yn tynnu sylw ato sef sicrhau bod plant ddim yn dioddef unrhyw oedi diangenrhaid i fod mewn sefyllfa fwy pendant a sefydlog. Rydym yn deall yr ymdeimlad pwysig sydd wrth wraidd y galw i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cael eu gwneud cyn bod y datganiad terfynol yn cael ei gyflwyno. Wedi dweud hynny, mae'r gofyniad bod angen i'r llys ystyried y trefniadau y mae'r rhieni yn eu cynnig er mwyn gwneud eu plant yn rhan o'r broses ysgaru ac os oes angen, defnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Plant 1989, a gafodd ei ddileu o ddeddfwriaeth 2014 gan ei fod yn aneffeithiol ymarferol gan ei fod ond yn giplun mewn amser ac nid yn adlewyrchiad o anghenion newidiol plant dros amser.<sup>34</sup> **Byddwn yn archwilio opsiynau ar gyfer rhannu gwybodaeth a chyfeirio at wasanaethau eraill er mwyn annog y rheini sy'n ysgaru i wneud trefniadau deallus sy'n canolbwyntio ar y plant yn ystod y broses gyfreithiol o gael ysgariad, lle mae gwneud trefniadau o'r fath yn ddiogel ac yn briodol.** Mewn achosion eraill, mae'n bosibl bod lles y plentyn yn gofyn am gais ar wahân yn cael ei wneud i'r llys teuluol.

Rydym wedi profi bod amser yn effeithiol iawn o ran cyflwyno gwahanol gyfnodau lleiaf, sy'n amrywio o dri i ddeuddeg mis, rhwng cyflwyno'r ddeiseb i'r datganiad terfynol a chan gynnwys y gofyniad presennol o chwe wythnos rhwng cyfnodau'r datganiadau (gweler yr asesiad effaith ynghylch manylion yr opsiynau). O dan y broses bresennol, mae'r cyfnod y maen gymryd i rai cyplau sy'n ysgaru symud o'r ddeiseb i'r datganiad terfynol rhwng tri a phedwar mis. Er gwaethaf unrhyw ddiwygio deddfwriaethol, bydd y cyfnod hwn hyd yn oed yn gynt yn 2020 pryd bydd y broses ysgaru ddigidol o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer defnyddwyr ar gael yn llawn ar-lein. O'i gymharu â'r amserau ar-lein presennol a chyflawn, byddai unrhyw gyfnodau lleiaf newydd yn gwneud y broses yn arafach yn y mwyafrif o achosion, ond yn gynt i'r rheini sydd eisoes wedi aros am rhwng dwy a phum mlynedd i wahanu. **Byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer cyfnod lleiaf o chwe mis. Bydd hyn yn cael ei lunio o ugain wythnos (pedwar mis a hanner) rhwng dechrau'r gweithdrefnau a'r datganiad nisi, a chwe wythnos (un mis a hanner) rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt.** Byddwn hefyd yn ystyried un ai i gyflwyno pŵer i ddiwygio'r cyfnod hwn yn sgil is-ddeddfwriaeth, sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i'r cyfnod chwe wythnos rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt.

#### *Amgylchiadau ar gyfer lleihau'r amserlen*

Nid oedd consensws yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch darparu eithriadau neu amrywiaethau i'r cyfnod lleiaf, neu ym mha amgylchiadau. Roedd llawer o'r ymatebion yn cydnabod y gallai partion sydd wedi gwahanu yn flaenorol fod o'r farn y byddai cyfnod

<sup>32</sup> Emma Nash, "The Final Decree of Divorce: Timing Is Absolutely Everything", *International Family Law Group LLP* (gwefan), Ionawr 2017. Ar gael yn: <https://www.iflg.uk.com/guidance/final-decree-divorce-timing-absolutely-everything>

<sup>33</sup> Anne Barlow, Rosemary Hunter, Janet Smithson a Jan Ewing, *Mapping Paths to Family Justice: Briefing Paper and Report on Key Findings* (Exeter: Prifysgol Exeter, 2014).

<sup>34</sup> Cafodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 wared ar y gofyniad bod y llys yn ystyried o ran ysgariad neu ddiddymiad i ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Plant 1989 a'r gofyniad bod y partion yn darparu datganiad trefniadau.

lleiaf ar gyfer adlewyrchu yn ddiangen, ond, ar y cyfan, yn credu y byddai cyflwyno proses sengl, glir i'r holl bartïon yn gorbwyso'r pryder hwn. Bron heb eithriad, mae awdurdodaethau rhyngwladol y mae nhw'n defnyddio cyfnod aros yn gofyn am un cyfnod bod y cais wedi cael ei wneud yn unigol neu ar y cyd.<sup>35</sup> Mae hyn yn cael gwared ar greu sefyllfa o fargeinio rhwng y partïon – materion fel cytuno ar ddeiseb ar y cyd ar yr amod y ceir setliad ariannol mwy ffafriol – neu annog gorfodi neu ffugio ceisiadau a wneir ar y cyd. **Rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai amserlen cyfnod lleiaf barhau, er gwaethaf os yw'r cwpl wedi byw ar wahân neu wedi ymgeisio ar y cyd, er mwyn gwneud y broses gyfreithiol yn rhwyddach i'w defnyddio ac i leihau unrhyw wrthdaro.**

Wedi dweud hynny, roedd dwy thema gyffredin yn awgrymu y byddai proses gyflymach yn cael ei chaniatáu mewn achosion o gam-drin domestig neu mewn achos o salwch anghueol. Byddwn yn trafod y rhain yn eu tro. Yn gyntaf, roedd ymatebwyr o blaid a phryderon ynghylch darparu eithriadau ar gyfer proses gyflymach mewn achosion o gam-drin domestig. Roedd y pryderon yn cynnwys y potensial i hyn greu amgylchiadau anfwriadol lle mae cynnydd mewn honiadau a throthwyon o dystiolaeth y mae dadlau yn eu cylch (a nodwyd uchod wrth drafod y rhwystr statudol un flwyddyn ar ysgariad).

Rydym yn deall y gallai bod dioddefwyr cam-drin domestig yn dymuno dod â'u perthynas gyda phriod difriol i ben cyn gynted â phosibl. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau bod unrhyw un sy'n dioddef cam-drin domestig yn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, gan gynnwys dioddefwyr o fewn y briodas ddifriol. Mae yna amrywiaeth o fesurau i ddiogelu ar gael i ddioddefwyr yn y llys teuluol, gan gynnwys amrywiol fathau o orchmynion i ddiogelu fel gorchmynion peidio ag ymyrryd a gorchmynion meddiannaeth.<sup>36</sup> Hefyd, fe wnaeth y Llywodraeth yn ddiweddar ymgynghori ar y mater pwysig hwn a chyhoeddi pecyn o fesurau a Bil Difriol Domestig drafft ar 21 Ionawr eleni i helpu dioddefwyr cam-drin domestig.<sup>37</sup> Mae hwn yn cynnwys cynigion ar gyfer gorchmynion diogelu newydd, sy'n dwyn ynghyd yr elfennau cryfaf o'r gorchmynion presennol a gall dioddefwyr, yr heddlu neu drydydd partïon perthnasol ymgeisio amdano ar ran y dioddefwr. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys amrywiaeth eang o fesurau cefnogol a fwriedir i gyd-fynd â'r deddfwriaeth fydd yn helpu dioddefwyr sydd yn y sefyllfa hon ymhellach.

Gallai darparu ar gyfer meini prawf eithriad neu gyflymu ailgyflwyno problemau sydd wedi cael eu nodi yn y system fel ag y mae hi lle gall honiadau gael eu ffugio, eu dadlau neu eu defnyddio gan bartïon er mwyn bargeinio. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'n hamcanion i gael gwared ar ffynonellau o wrthdaro a lleihau natur gwrthwynebus y broses gyfreithiol. **Rydym yn credu bod, fel rheol gyffredinol, yr eglurder a'r gallu i ragweld er lles y broses gyfreithiol o fudd yn sgil amserlen sengl, heb unrhyw eithriadau iddi.**

Yn ail, mae gan y llys bŵer ar hyn o bryd i rhwyddhau gwneud y datganiad absoliwt ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn achosion lle mae gan un o'r partïon salwch

<sup>35</sup> Jens Scherpe a Liz Trinder, *Reforming the Ground for Divorce: Experiences from Other Jurisdictions*.

<sup>36</sup> Gall gorchmynion meddiannaeth gynnwys gofyniad bod un o'r pâr yn parhau i dalu rhent neu forgais ar yr eiddo.

<sup>37</sup> Gellir cael rhagor o fanylion ynghylch y mesurau deddfwriaethol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Cam-drin Domestig drafft yn <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-consultation-response-and-draft-bill>.

angheuol (ac yn dymuno ailbriodi cyn ei marwolaeth).<sup>38</sup> Ar hyn o bryd, dyw hyn yn berthnasol gyda'r cyfnod o chwe wythnos rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt. **Rydym yn credu y dylai pŵer y llys i awdurdodi cyfnod byrrach rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt, lle mae sail am rhwyddhau'r broses yn bodoli, barhau a byddwn yn ystyried seiliau pellach ar gyfer rhwyddhau, gan gynnwys a ddylai pŵer tebyg fod yn berthnasol mewn achos y cyfnod hyd at y datganiad nisi.**

#### *Amgylchiadau ar gyfer oedi'r amserlen*

Mae hi'n bosibl y gall y broses gyfreithiol gymryd ychydig yn hirach nag unrhyw gyfnod lleiaf os yw'r ceisiadau angenrheidiol ddim yn cael eu cyflwyno, fe glywsom dadleuon y dylai darpariaethau penodol gael eu gwneud i ganiatáu i weithdrefnau gael eu oedi er mwyn aros nes bod y datganiad terfynol yn cael ei gyflwyno. Ar y cyfan, roedd y rhain yn berthnasol i achosion sydd eisoes yn rhan o'r gyfraith bresennol. Roedd rhain yn cynnwys gallu'r llys i ohirio'r gweithdrefnau os oes yna bosibilrwydd rhesymol bod y cwpwl am gymodi<sup>39</sup> a lle mae o blaid buddiannau'r parti bod eu diddymiad crefyddol o'r briodas yn cael ei gwblhau cyn ysgaru yn gyfreithiol.<sup>40</sup> **Rydym yn bwriadu cadw'r darpariaethau hyn i oedi cyflwyno'r datganiad terfynol.**

#### **Amserlen lleiafswm: prif bwyntiau**

- Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno cynigion i gyflwyno amserlen cyfnod lleiaf o chwe mis ar gyfer y broses gyfreithiol, sy'n cael ei mesur o gyflwyno'r ddeiseb i'r datganiad terfynol. Bydd yn golygu ugain wythnos rhwng cyflwyno'r ddeiseb i'r datganiad nisi a chwe wythnos rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt a fydd yn cyfrif am yr anawsterau o fewn y gwasanaeth.
- Bydd mesur rhwng y pwyntiau pendant hyn yn darparu amserlen glir a chyson ar gyfer unrhyw gwpwl sy'n ysgaru sy'n ymwneud â'r broses gyfreithiol yn ei chyfanrwydd. Bydd hyn yn rhoi amser i ystyried y penderfyniad i ysgaru, gan roi digon o gyfle i newid cyfeiriad neu i gytuno ar drefniadau ar gyfer y dyfodol.
- Ni fydd yr ysgariad yn awtomatig ar ddyddiad penodol ar ddiwedd yr amserlen cyfnod lleiaf ond bydd yn gofyn i'r ymgeisydd barhau i gadarnhau eu penderfyniad i gael ysgariad trwy geisiadau pellach. Mae hyn yn sicrhau bod amddiffynfeydd pwysig mewn lle ar gyfer y broses bresennol.
- Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai'r amserlen cyfnod lleiaf fod yn berthnasol yn gytbwys i unrhyw gais, ond bydd yn archwilio ymhellach y seiliau presennol ac yn y dyfodol ar gyfer rhwyddhau'r amserlenni'r cyfnod lleiaf.

<sup>38</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 1(5). Mewn achosion lle gwneir cais i gyflymu'r broses o roi'r dyfarniad, mae'r llys yn disgrifio sut bydd y trefniadau'n mynd rhagddynt yn Rheol 7.32 o Reolau Gweithdrefnau Teulu ac mae cyfarwyddiadau pellach i'w cael ym mharagraffau 8.1-8.4 ym mhwynt 7A o'r Cyfarwyddyd Ymarfer cysylltiedig. (Cyhoeddir y Rheol yn [https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/parts/part\\_07](https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/parts/part_07) a'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn [https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice\\_directions/pd\\_part\\_07a](https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_07a).)

<sup>39</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 6(2).

<sup>40</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 10A

## Ystyriaethau cysylltiedig eraill

### Alinio dirymedd (cwestiwn 7)

Ni wnaeth papur ymgynghori'r Llywodraeth gyflwyno cynigion ar gyfer newid y broses ar gyfer dirymu datganiadau ond roedd yn gofyn a ddylai'r cyfnod rhwng y camau o ddirymu'r datganiadau gael ei alinio gyda'r hyn sy'n digwydd rhwng camau datganiad yr ysgariad. Fe wnaethom ofyn barn ar hyn gan bod gennym ni gwestiwn agored a ddylai'r cyfnod rhwng y datganiad nisi a'r datganiad absoliwt gael ei ymestyn o'r cyfnod presennol o chwe wythnos. Fe wnaethom, fodd bynnag, nodi bod yna wahaniaethau sylweddol rhwng y gyfraith ar ddirymu a'r gyfraith ar ysgaru.

Mae datganiadau o ddirymedd yn eithaf prin a dyw'r gwahaniaethau mewn cyfraith dirymedd – pethau fel gwahaniaethau rhwng priodasau gwag a dirymadwy – ddim bob amser yn hawdd eu deall.

Yn dilyn ystyriaeth gan yr ymatebwyr hynny i'r ymgynghoriad oedd yn darparu naratif ar y cwestiwn, mae'r **Llywodraeth yn cytuno y dylai'r broses ddirymu barhau fel ag y mae hi**. Mae priodas yn dod i ben trwy ddatganiad o ddirymedd yn wahanol iawn i ddiweddu'r briodas trwy ysgariad. Gellir cyflwyno deiseb am ddirymedd ar unrhyw adeg o'r briodas, gan gynnwys yn ystod y flwyddyn gyntaf ond dim ond ar wyth sail penodol iawn. Ni does yna ofyniad i'r partïon ystyried cymodi yn ystod y broses. Felly, mae dirymedd yn wahanol iawn i ysgariad ac ni fyddai'n briodol i wneud newidiadau i'r broses ddirymu i'w halinio gyda'r broses ddiwygiedig ar gyfer ysgaru.

Mewn gweithdrefnau dirymedd, nid oes yn rhaid bod y briodas wedi methu yn anadferadwy, ond mae'n rhaid i un o'r seiliau penodol gael eu diwallu. Nododd rhai grwpiau, gan gynnwys Family Law Bar Association, na fyddai gwneud y broses yn hirach yn helpu dioddefwyr o briodasau ar orfod sy'n ceisio cael datganiad o ddirymedd ar sail cydsyniad annilys.

### Cadw gofynion eraill (cwestiwn 11)

Fel y cynigiwyd yn y papur ymgynghori, bydd y Llywodraeth yn cadw pŵer Proctor y Frenhines i ymyrryd mewn gweithdrefnau neu i "ddangos achos" yn erbyn rhoi datganiad nisi absoliwt.<sup>41</sup> Byddwn yn cadw'r pŵer i wneud rheolau i'r llys ynghylch ymarferwyr cyfreithiol i ddilysu a ydyn nhw wedi trafod y posibilrwydd o gymodi.<sup>42</sup> Roedd yna gytundeb cyffredinol ynghylch cadw gan bobl a ymatebodd i'r cwestiynau, er bod rhai wedi dweud bod y ddarpariaeth ynghylch trafodaeth ddilysu efallai mewn rhyw ffordd wedi cael ei atgyfnerthu neu ei hymestyn mewn achosion sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn cadw ei allu o dan adran 10A o Ddeddf Achosion Priodasol 1973 i un o'r partïon i briodas gristnogol benodol ofyn i'r llys i ddal yn ôl rhag cyflwyno datganiad absoliwt nes bod yr awdurdodau cristnogol wedi diddymu'r briodas. Ni wnaethom gyfeirio at y ddarpariaeth hon yn y papur ymgynghori ond fe siaradon ni gyda nifer o randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad ac yn hapus i gadarnhau y bydd yn cael ei gadw. Cyflwynwyd y ddarpariaeth trwy'r Ddeddf Ysgaru (Priodasau Cristnogol) 2002 gyda'r pwrpas o gynnig diogelu pobl sydd, tra'n gyfreithiol rhydd i ailbriodi yn dilyn

<sup>41</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 8. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cysylltodd pobl oedd â gwybodaeth personol o sut yn union y defnyddir Proctor y Goron – roedd hyn yn ddefnyddiol iawn.

<sup>42</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 6(1).



datganiad terfynol y llys, ddim yn rhydd yn grefyddol i wneud hynny heb gymeradwyaeth gan yr awdurdodau cristnogol.

Yn ein cynnig i ddisodli'r pum ffaith bresennol gyda datganiad o fethiant anadferadwy o'r briodas, fe wnaethom awgrymu y dylai rhai darpariaethau gael eu rhoi ar waith lle mae'r rheini oedd o blaid y pum ffaith yn cael eu diddymu gan nad ydynt bellach yn berthnasol. Roedd rhai o'r darpariaethau hyn yn ofynion oedd yn uniongyrchol gysylltiedig gyda cyflwyno ffeithiau, pethau fel amodau ar gyfer cyfrif y cyfnod gwahanu. Mae'r Llywodraeth yn parhau i gynnig diddymu'r ddarpariaeth ar gyfer gwrthod y datganiad mewn achosion sy'n dibynnu ar gyfnod o bum mlynedd o wahanu ar y sail bod yr ymatebwr yn dioddef caledi difrifol, am y rhesymau a nodir uchod.<sup>43</sup> Mae'r Llywodraeth hefyd yn parhau i gynnig diddymu'r ddarpariaeth gyffredinol am ryddhau i ymatebwyr (sy'n dibynnu ar brawf o un o'r pum ffaith).<sup>44</sup>

Darpariaeth arall y gwnaethom ei awgrymu ar gyfer diddymiad oedd darparu ar gyfer diogelu arbennig ar gyfer ymatebwyr mewn achosion sy'n dibynnu ar wahanu dwy flynedd neu bum mlynedd.<sup>45</sup> Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi ymatebwr i oedi cyflwyno'r datganiad absoliwt yn sgil ystyried eu darpariaethau ariannol. Er mai anaml iawn yr eir ati i gymryd mantais ar y ddarpariaeth hon, bydd y Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth bellach i'w hymestyn i ymatebwyr ym mhob achos (neu i'r ddau barti os cyflwynir achos ar y cyd).

### Asesiad effaith (cwestiwn 12)

Mae'r asesiad effaith sy'n cyd-fynd â'r papur hwn wedi cael ei ddiweddarau i ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac unrhyw effeithiau a nodwyd fel rhan o'n cynigion i ddiweddarau'n polisi. Mae hefyd yn ystyried opsiynau eraill a awgrymir ar gyfer diwygio o'u cymharu yn erbyn amcanion y Llywodraeth ar gyfer diwygio.

Rydym wedi ymestyn ein manylion ansoddol ar effeithiau andwyol y gyfraith bresennol o gael ysgariad ar gyplau a'u plant, sydd wedi cael eu hybu gan yr ymatebion yn yr ymgynghoriad gan grwpiau sy'n gweithio gyda chyplau o'r fath a'u teuluoedd ar draws y sectorau cyfreithiol, gwirfoddol a chyhoeddus. Mae'r **buddiannau lles i oedolion a phlant** a ragwelwyd wedi cael eu diweddarau yn yr asesiad effaith. Yn enwedig, mae'r buddiannau i ddiodefwyr cam-drin domestig wedi cael eu nodi yn dilyn ymgysylltu gyda grwpiau sy'n cynrychioli diodefwyr a'u cynghori yn ystod y broses gyfreithiol o ysgaru, gan gynnwys Cymorth i Fenywod a Hawliau Menywod.

Rydym hefyd wedi ystyried y **pryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae ysgariad ei hun yn ei gael ar blant**. Er nad ydym yn rhagweld y bydd y diwygiadau hyn yn effeithio yn yr hirdymor ar gyfraddau ysgaru (gweler isod), rydym am fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Fe wyddom bod priodas yn gallu bod yn sail ar gyfer bywyd teuluol llwyddiannus. Wedi dweud hynny, mae mathau o deuluoedd yn amrywio'n fawr a weithiau, yr opsiwn orau i gwpwl a'u plant yw eu bod yn gwahanu. Mae plant sy'n cael profiad o rieni yn gwahanu yn amrywio yn eang iawn o ran eu profiadau. Mae pwysau'r dystiolaeth yn dangos bod canlyniadau plant yn cael eu heffeithio gan ansawdd y berthynas rhwng y rhieni, nid gan strwythur y teulu: mae ffactorau diogelu pwysig yn erbyn canlyniadau andwyol yn sgil gwahanu yn cynnwys lefelau isel o wrthdaro rhwng y rheini yn ystod y gwahanu, y rhieni

<sup>43</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 5. Dyw'r ddarpariaeth hon ond yn berthnasol os oes achos o galedi ariannol neu fath arall o galedi sy'n deillio o ddiddymiad y briodas. Nid yw'n berthnasol os yw'r caledi hwn yn deillio o ymddieithrio neu fynd â gadael rhywun.

<sup>44</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 20.

<sup>45</sup> Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 10(2)-(4) a Deddf Partneriaeth Sifil 2004, adrannau 48(2)-(4).

yn cydweithio yn dilyn y gwahanu, rheini sy'n gymwys ac yn gyfeillgar a chymorth cymdeithasol.<sup>46</sup> Rydym yn bwriadu cefnogi'r canlyniadau gwell hyn ar gyfer plant trwy gael gwared ar yr elfennau hynny o fewn y broses gyfreithiol ar gyfer ysgaru sy'n creu neu'n gwaethygu gwrthdaro rhwng rhieni.

Rydym wedi clywed pryderon y byddai'r diwygiadau'n gwneud hi'n haws i briod adael eu partneriaid neu eu plant, gyda phryder penodol yn cael ei godi ynghylch yr effaith posibl y gallai hyn ei gael ar **bartion sy'n agored i niwed**. Mae'r asesiad effaith a'r datganiad cydraddoldeb wedi nodi nad ydym wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth y byddai'r risg hwn yn cael ei effeithio gan y newidiadau a gynigir. Rydym yn glir bod y gyfraith fel ag y mai hi ar ysgariad ddim yn diogelu priod rhag gwneud penderfyniad i ysgaru, er gwaethaf y rheswm dros y penderfyniad hwnnw, a bod angen ar y briodas ddau parti sy'n cytuno i barhau i aros o fewn y briodas. Mewn achosion o ysgaru lle mae'r ymatebwr yn agored i niwed, bydd y darpariaethau presennol amrywiol sy'n eu diogelu yn aros fel y maen nhw.<sup>47</sup>

Rydym wedi diweddarau'r asesiad effaith er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynghylch cyflwyno cyfreithiau ysgaru tebyg mewn awdurdodaethau eraill sydd wedi arwain at gynnydd yn y **gyfradd ysgaru**. Mae cyfraddau ysgaru'n cael eu heffeithio gan amrywiaeth eang o ffactorau: mae effeithiau newidiadau yn y gyfraith benodol yn anodd i'w hadnabod, yn enwedig os yw'r newidiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau cymdeithasol cyfatebol.<sup>48</sup> Mae'r ymchwiliad mwyaf diweddar i'r maes hwn wedi dod i'r casgliad bod, er ei bod hi'n gyffredin i gael effeithiau dros-dro mewn lle mewn ymateb i bolisi a newidiadau cyfreithiol, nid yw cyfraddau ysgaru hirdymor ddim yn cael eu cynyddu gan gyfreithiau ysgaru a elwir yn "heb fai".<sup>49</sup>

Er ein bod yn gwerthfawrogi barn y rheini sy'n pryderu am ddiogelu **statws priodas**, mae yna dystiolaeth bod y gofyniad ffeithiau neu'r gallu i herio i ddiogelu'r briodas. Yn lle hynny, dengys y pwysoliad tystiolaeth bod gan y ffeithiau seiliedig ar ymddygiad y potensial i wneud ysgariad yn brofiad mwy poenus a chwerw, ac mae'r ffeithiau seiliedig ar wahanu yn eu hanfon ddim ar gael i'r rheini sy'n methu â fforddio i gynnal dau gartref heb eu bod wedi gwneud trefniadau ariannol ar gyfer gwahanu. Rydym yn credu bod cadw'r sail unigol dros ysgaru mewn sefyllfa o fethiant anadferadwy yn sicrhau bod yna ddal drothwy uchel a synhwyrol a bod cyflwyno cyfnod lleiafswm yn helpu gyda'r penderfyniadau i barhau i fod yn rhai sy'n cael eu hystyried ac i roi digon o gyfle i gyplau newid cyfeiriad.

<sup>46</sup> Gordon Harold, Daniel Acquah, Ruth Sellers a Haroon Chowdry, *What Works to Enhance Inter-Parental Relationships and Improve Outcomes for Children*, adroddiad ad hoc yr Adran Gwaith a Phensiynau rhif 32 (Llundain: Early Intervention Foundation, 2016). Ann Mooney, Chris Oliver a Marjorie Smith, *Impact of Family Breakdown on Children's Well-Being: Evidence Review* (London: Institute of Education, University of London, 2009). Cassandra Brown, 'Ameliorating the Effects of Divorce on Children', *Journal of the American Academy of Matrimonial Lawyers* cyfrol.22 (2009): 461–82.

<sup>47</sup> Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd y gellid penodi cyfaill cyfreitha ar ran un o'r pâr sydd heb y gallu i wneud penderfyniadau dros ei hun a'r ystyriaeth ar wahân o ddarpariaeth ariannol ar yr ysgariad, pan mae'r llys yn gorfod ystyried unrhyw anabledd corfforol neu feddyliol unrhyw un o'r parti sy'n rhan o'r briodas wrth wneud penderfyniadau ynghylch gwneud gorchymyn ariannol, os penderfynir gwneud un.

<sup>48</sup> John Haskey, 'Facts and Figures: Grounds for Divorce Since the 1969 Divorce Reform Act in England and Wales', *Family Law* (Awst 2018): 1006–15.

<sup>49</sup> Justin Wolfers, 'Did Unilateral Divorce Laws Raise Divorce Rates? A Reconciliation and New Results', *American Economic Review* cyfrol.96 rhif.5 (Rhagfyr 2006): 1802–20. Betsey Stevenson a Justin Wolfers, 'Marriage and Divorce: Changes and Their Driving Forces', *Journal of Economic Perspectives* cyfrol.21 rhif.2 (Gwanwyn 2007): 27–52. Liz Trinder, Debbie Braybrook, Caroline Bryson, Lester Coleman, Catherine Houlston a Mark Sefton, *Finding Fault?: Divorce Law and Practice in England and Wales* (London: Nuffield Foundation, 2017).

## **Egwyddorion yr ymgynghoriad**

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill lynu atynt ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn egwyddorion yr ymgynghoriad.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

## Atodiad A: Crynodeb manwl o'r ymatebion yn ôl cwestiwn

1. A ydych yn cytuno â'r cynnig i gadw methiant y tu hwnt i adfer yr unig sail dros ysgaru?

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 1

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	1,959	69%
Nac ydw	747	26%
Heb benderfynu	136	5%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>2,842</b>	

Roedd rheini oedd yn cytuno yn nodi bod cadw'r sail hon yn dangos bod priodas yn bwysig a bod angen lefel uchel o fethiant anadferadwy cyn y gall cyplau adael y briodas. Roeddent yn dadlau ei fod yn syml, yn ystyriol ac yn ddigonol, gan amlinellu'r amgylchiadau dros ymgeisio am ysgariad, heb orfod rhoi rhesymau penodol dros y methiant, sy'n oddrychol.

Roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno y dylai'r sail gael ei chadw yn erbyn gorfod cyfiawnhau unrhyw beth i'r llys. Roedd eraill yn credu y dylid diffinio "anadferadwy" a "chwalfa" ac y dylai fod yn oddrychol.

Roedd yn amlwg bod rhai o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch y gofynion cyfreithiol cyfredol a natur yr ymgynghoriad: roedd yr ymatebwyr hynny oedd yn anghytuno y dylai'r sail gael ei chadw hefyd am i'r ffeithiau gael eu cadw hefyd. Fe wnaethant bwyntiau ehangach yn anghytuno gydag unrhyw newid yn y gyfraith, oedd, yn eu barn hwy, wedi'u hanelu at wneud y broses o ysgaru yn rhwyddach. Roedden nhw'n teimlo y dylai'r sail gynnwys y pum ffaith bresennol i gydnabod bod priodas yn ymrwymiad difrifol, am oes, ac y dylai cyplau orfod egluro'r rheswm dros y methiant a chymryd cyfrifoldeb drosto.

## 2. Mewn egwyddor, a ydych chi'n cytuno â'r cynnig i sefydlu proses hysbysu yn lle'r pum ffaith?

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 2

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	546	17%
Nac ydw	2,614	80%
Heb benderfynu	99	3%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>3,259</b>	

Tan y cynnydd sylweddol yn y gyfradd ymateb yn y bythefnos ddiwethaf o'r ymgynghoriad, roedd y gefnogaeth i'r cynnig i gael gwared ar y pum ffaith yn 70%. Roedd y cynnydd hwn yn y gyfradd ymateb yn cyd-fynd ag ymgyrchoedd gan grwpiau oedd yn erbyn cynigion y Llywodraeth ac oedd yn annog eu cefnogwyr trwy ganllawiau ar-lein i ymateb i rai cwestiynau ac i wneud rhai pwyntiau mewn dadl.

Roedd llawer oedd yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y pum ffaith yn credu y byddai hyn yn lleihau gwrthdaro ac o fudd i'r ddau barti ynghyd ag unrhyw blant yn y briodas. Fe wnaethant nodi bod defnyddio **ffeithiau seiliedig ar ymddygiad** yn arwain at fwy o ddrwgdeimlad. Roeddent yn dadlau, mewn realiti, yn aml, nid oes yna un "rheswm" dros ysgaru ac fel arfer nid oes un "ochr" yn bennaf ar fai. Roedd rhai yn teimlo y byddai cael gwared ar yr opsiwn "rhoi bai" yn helpu'r partïon i ganolbwyntio ar wneud trefniadau ar gyfer byw ar wahân mor adeiladol â phosibl.

Nododd ymarferwyr o fewn y maes bod amheuaeth ynghylch y system bresennol a bod, yn ymarferol, y ffeithiau oedd yn cael eu defnyddio yn ffug neu nid ydynt yn adlewyrchu'r gwir reswm dros fethiant y briodas. Hefyd, gwnaethant nodi bod y rheini sydd heb gyngor cyfreithiol er mwyn deall y trefniadau dan anfantais. Mae dryswch pellach yn cael ei achosi gan fod yna ganfyddiad cyffredin, nad yw'n cael ei gywirio heb gyngor cyfreithiol, bod y ffeithiau y dibynnir arnyn nhw yn cael effaith ar ganlyniad yr ysgariad nag ar y gweithdrefnau perthnasol fel setliadau ariannol neu drefniadau ar gyfer plant.

Dywedodd **grwpiau oedd yn cynrychioli dioddefwyr cam-drin domestig** – er bod rhai dioddefwyr yn teimlo bod elfen gathartig i nodi "bai" yn y ddeiseb – ar y cyfan, pan maen nhw'n sylweddoli mai cyfyngedig yw'r effaith gyfreithiol a geir ar y broses, nid oes yna unrhyw fudd ac yn wir, gall roi'r dioddefwyr mewn perygl trwy gynyddu tensiynau. Hefyd, fe wnaethant nodi bod rhai dioddefwyr yn cael eu gorfodi i roi eu bywydau ar stop am rhwng dwy a phum mlynedd a pharau i fod mewn perthynas gyfreithiol gyda'r sawl sy'n eu cam-drin er mwyn osgoi'r cythrwfl o amlinellu manylion trawmatig neu sydd â'r potensial i fod yn ymfflamychol yn ystod y broses ysgaru.

Nododd grwpiau ac ymatebwyr bod rhai pobl yn defnyddio'r cyfle yn anfwriadol i achosi poendod trwy gyhoeddi eu barn a'u honiadau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai bod lleoliadau gwahanol a mwy priodol ar gael er mwyn gweithio ar ddieter a'r siomedigaeth a deimlir yn ystod proses ysgaru boenus.

Roedd rhai ymatebwyr o blaid cael gwared ar y ffeithiau seiliedig ar ymddygiad, ond yn teimlo y dylid bod rhesymau dilys dros gadw'r **ffeithiau seiliedig ar wahanu** er

mwyn sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei roi ynghylch bwrw 'mlaen a'r broses ysgaru. Wedi dweud hynny, nododd rhai eraill y byddai'r rhain yn gwahaniaethu yn erbyn cyplau nad ydynt yn gallu fforddio i redeg dau gartref heb drefnu cyllid ar gyfer ysgaru. Disgrifiwyd y dull amgen – byw bywydau ar wahân tra'n byw yn yr un cartref – fel un anodd, artiffisial ac andwyol i unrhyw ymdrechion i gymodi neu i rannu amser gyda plant.

Roedd y rheini oedd yn anghytuno gyda'r cynnig yn teimlo y dylid cadw'r pum ffaith er mwyn diogelu'r sefydliad o briodas a dangos bod torri ymrwymiadau priodas hir oes yn gofyn am resymau clir a thystiolaeth. Roedden nhw'n teimlo y byddai'r cynigion yn gwneud ysgariad yn haws ac yn ei fychanu i broses weinyddol yn unig y gellir dechrau arni yn hawdd neu am resymau "disylwedd". Roedd rhai yn mynegi pryderon y byddai'n methu â diogelu yn erbyn priodas ffug a gallai achosi risg i gefnu ar bobl sy'n agored i niwed mewn priodas.

Roedd y rhai oedd heb benderfynu yn awgrymu y gallai gwneud datganiad o fethiant anadferadwy fod yn opsiwn ynghyd â'r ffeithiau cyfredol, gan eu bod hwy'n credu y gallai'r ffeithiau ganiatáu i ddod â'r mater i ben os oes "beiau" sylweddol wedi cael eu gwneud fel cam-drin domestig neu odinebu, ac mewn achosion eithafol, y dylid ei ystyried o fewn setliadau ariannol.

### 3. Ydych chi'n credu y dylid gwneud darpariaeth i'r ddau barti yn y briodas allu cyflwynon cais ar y cyd yn ogystal â gwneud darpariaeth i un parti yn unig allu gwneud cais?

#### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 3

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	1,392	58%
Nad ydw	583	24%
Heb benderfynu	434	18%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>2,409</b>	

Ar y cyfan, roedd cefnogaeth i'r gyfraith gydnabod bod y bwriad i ysgaru yn un y mae'r ddau barti yn ei dal. Fodd bynnag, mae'n amlwg o rhai o'r sylwadau bod yna ddehongliadau gwahanol ynghylch beth oedd y cwestiwn yn ei ofyn. Roedd rhai ymatebwyr oedd yn cytuno ac yn anghytuno yn credu y byddai'r cynnig hwn yn atal ceisiadau gan un parti yn unig. Roedd rhai yn anghytuno neu ddim yn ymateb ar y sail eu bod yn anghytuno cyn belled â bod y system ynghylch datganiad o fethiant anadferadwy, ond yn nodi y dylai'r ysgariad fod yn benderfyniad ar y cyd. Pe caniateir i wneud datganiad unigol, yna dylid parhau i gadw'r hawl i herio'r bwriad i ysgaru.

Roedd y rheini oedd yn cytuno y byddai opsiwn i roi rhybudd ar y cyd yn credu y gallai fod yn ddewis symbolig positif, yn enwedig i blant y ddau barti, er mwyn dangos ei fod yn benderfyniad ar y cyd ac nad oes un person yn gyrru'r broses ysgaru yn fwy na'r llall. Nododd rhai cyfreithwyr bod cleientiaid eisoes mewn perygl o hyn, gan fod y penderfyniad i ysgaru yn aml yn un sy'n cael ei wneud ar y cyd. Nodwyd y byddai

angen i'r prosesau ganiatáu am newid y cais ar gyfer cais "unigol" i gais "ar y cyd", ac fel arall, os yw'r partïon yn newid eu meddyliau.

Roedd rhai yn teimlo y dylai ymgeiswyr ar y cyd gael eu hannog i ddilyn cyfnod amser byrrach, er mwyn annog dechrau cydsyniol i'r broses ysgaru fyddai, gobeithio, yn dangos y ffordd ar gyfer gwneud trefniadau ar gyfer y dyfodol. Wedi dweud hynny, nododd eraill y risg posibl pe byddai un o'r mathau o geisiadau yn cael eu trin yn wahanol, o fewn y broses, ac y gallai hyn gael ei ddefnyddio fel bygythiad neu ddylanwad o fewn trefniadau ariannol neu gyda phlant.

4. **Rydym wedi nodi'r rhesymau y mae'r Llywodraeth yn credu ei bod hi'n ddefnyddiol i gael y broses dyfarniad dau gam (y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt). Ydych chi'n cytuno â hwy?**

**Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 4**

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	2,299	88%
Nac ydw	165	6%
Heb benderfynu	162	6%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>2,626</b>	

Dangosodd y rheini oedd yn cytuno gyda chadw'r broses dyfarniad dau gam eu consensws yn eu sylwadau, gan nodi bod hyn yn caniatáu ar gyfer amser i adlewyrchu ac ystyriaeth, ynghyd ag amser i gytuno ar drefniadau ar gyfer plant ac arian. Nododd rhai cyfreithwyr bod rhai o'u cleientiaid wedi cymodi yn ystod y cyfnod hwn ond roedd eraill yn nodi mai prin iawn oedd cymodi.

Roedd llawer yn teimlo bod y partïon fel arfer eisoes wedi cymryd cryn amser i ystyried cyn dechrau'r broses ysgaru, ond eu bod yn cytuno bod y broses yn caniatáu ar gyfer "cyfnod pontio" er mwyn gwneud y trefniadau ar gyfer plant ac arian. Nododd rhai bod hyn yn arbennig o bwysig er mwyn diogelu'r rheini o'r parti sydd ddim mor gryf yn economaidd, gan gynnwys amser i wneud gorchmynion ynghylch rhannu pensiwn. Roedd rhai'n awgrymu y dylai bod yna ddisgwyliad clir neu ofyniad bod y partïon yn cytuno ar y trefniadau yn y cyfnod canolig.

Roedd yr ymatebwyr oedd yn anghytuno yn teimlo bod y ddau gam yn ychwanegu oedi diangen, cost a dryswch. Roedd rhai o'r ymatebwyr oedd heb benderfynu yn awgrymu y dylai'r camau fod yn wahanol gan ddibynnu a oedd y cais wedi cael ei wneud yn unigol neu ei fod yn gais ar y cyd.

Nododd llawer mai'r cyfnod cyn cyflwyno'r dyfarniad nisi (y cyfnod rhwng y cais am ysgariad, a'r dyfarniad nisi) fyddai'r amser gorau i adlewyrchu, gan bod y partïon yn teimlo eu bod wedi ysgaru yn emosiynol unwaith mae'r dyfarniad nisi yn cael ei roi. Nododd rhai bod yna broses tri cam ar gyfer ceisiadau ac y dylai'r broses hon gael ei gwneud yn gliriach: y cais gwreiddiol a'r ceisiadau am ddyfarniad yn ystod y camau cychwynnol a'r camau terfynol.

Os yw'r ymatebwr yn credu y dylid parhau â'r broses dau gam neu beidio, nododd lawer bod y derminoleg yn hen ffasiwn ac yn aneglur.

## 5. Pa gyfnod lleiaf a fyddai'n fwyaf priodol yn eich barn chi i leihau gwrthdaro teuluol, a sut y dylid mesur hynny? Rhowch eich rhesymau yn y blwch testun

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 5

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran
Dim isafswm	26	1%
Llai na chwe wythnos	26	1%
Chwe wythnos	360	12%
Tri mis	239	8%
Chwe mis	297	9%
Naw mis	172	5%
Blwyddyn	1,044	33%
Dwy flynedd neu fwy	162	5%
Dim cyfnod penodedig	398	13%
Heb benderfynu	404	13%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>3,128</b>	

Fe wnaethom ni ofyn cwestiwn agored yn fwriadol er mwyn deall barn pobl ynghylch y broses ysgaru yn ei chyfanrwydd. Felly, dylid bod yn ofalus wrth ystyried y ffigurau hyn gan y rhoddodd yr ymatebwyr isafswm o amserlenni ar gyfer gwahanol rannau o'r broses ysgaru. Er enghraifft, roedd llawer o'r rheini awgrymodd chwe wythnos yn cynnig y byddai hyn yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sy'n gofyn am chwe wythnos rhwng y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt, sydd yn eu barn hwy, yn gweithio'n dda. Wedi dweud hynny, dim ond yr amser rhwng y dyfarniad nisi a'r dyfarniad absoliwt y mae'r amserlen yn ei fesur. Roedd amserlenni eraill a awgrymwyd yn cynnwys y broses ysgaru yn ei chyfanrwydd (o gyflwyno'r ddeiseb i'r dyfarniad absoliwt) neu o'r amser y gwneir y cais i phan mae'r llys yn cymeradwyo'r ysgariad yn y lle cyntaf (o gyflwyno'r ddeiseb i'r dyfarniad nisi).

Ystyriwyd y rhesymeg dros y polisi gan rai ymatebwyr gan fod rhai ddim yn ystyried y byddai'r cyfnod amser yn effeithio ar lefelau'r anghydfod ond yn hytrach, dylid adlewyrchu ar yr amser sydd ei angen i wneud y trefniadau ymarfer angenrheidiol. Roedd y farn yn gymysg ynghylch beth fyddai'n effeithio ar yr anghydfod: roedd rhai yn awgrymu bod tynnu allan risgiau'r broses yn cynyddu gelyniaeth gan fod cyplau sy'n ysgaru eisiau rhywfaint o bendantwydd ynghylch y dyfodol; nododd eraill y dylid rhoi amser ar gyfer "ar ôl i bethau dawelu" fel y gellir gwneud meddwl yn glir wrth wneud penderfyniadau yn enwedig os yw'r penderfyniad i ysgaru yn sioc i un parti sydd o bosibl yn galaru diwedd y berthynas. Yn fwy na dim, roedd y barn yn gymysg a yw plant yn cael budd o amserlenni byrrach neu hirach, os yw hyn yn golygu gwneud



trefniadau pendant er mwyn osgoi dyfodol ansicr, neu a yw'r aros ei hun yn cyfrannu at gyfnod o ansicrwydd y dylid fod ar ben cyn gynted â phosibl er mwyn galluogi teuluoedd i symud ymlaen.

Roedd y rheini oedd yn teimlo y dylai ddim bod isafswm cyfnod neu y dylai'r cyfnod fod yn llai na chwe wythnos yn dadlau y dylai unigolion fod yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i gael ysgariad cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ym mhob achos. Nododd lawer bod y penderfyniad i ysgaru yn un sy'n cael ei ystyried yn ddwys cyn gwneud y cais ac ni ddylai'r partion gael eu gorfodi i "adlewyrchu" ymhellach. Roedd y rheini a ddewisodd tri mis yn gyffredinol yn teimlo bod chwe wythnos yn rhy fyr ond bod chwe mis yn rhy hir, yn enwedig os yw'n gais ar y cyd.

Nododd yr ymatebwyr hynny oedd yn teimlo y dylai'r cyfnod isafswm fod yn chwe mis bod hyn yn amser digonol i'r partion ystyried yn rhesymegol y goblygiadau ac i wneud trefniadau ymarferol. Nododd eraill y gallai hyn alluogi cymodi, neu o leiaf ganiatáu'r ddau barti i ddod i delerau gyda diwedd y briodas a lleihau unrhyw ansicrwydd cyn bod yr ysgariad yn cael ei roi – yn enwedig os yw'r sefyllfa'n annisgwyl i un o'r partion.

Roedd y rheini a ddewisodd naw mis neu hirach yn teimlo y byddai hyn yn galluogi cwnsela neu gyfryngu ac adlewyrchiad priodol er mwyn galluogi adferiad, lle mae'n bosibl. Yn fwy na dim, roedd y rheini oedd yn awgrymu blwyddyn neu fwy yn teimlo y byddai hyn yn adlewyrchu'n well bwysigrwydd y briodas a'r ysgariad fel penderfyniad bywyd pwysig, yn enwedig mewn achosion os oes plant neu lle mae un parti yn dymuno parhau yn y briodas.

Roedd y rheini oedd heb benderfynu neu wedi awgrymu na ddylai fod unrhyw gyfnod "penodedig" yn awgrymu amserlenni yn dibynnu ar: a yw'r cais yn gais unigol neu'n un ar y cyd; pa mor gymhleth yw'r trefniadau angenrheidiol i'w gwneud; pa mor hir mae'r partion wedi bod ar wahân; a oes plant yn rhan o'r cais a'u hoedran; a oes elfennau o gamdriniaeth yn rhan o'r achos.

---

## 6. A oes unrhyw amgylchiadau lle dylid lleihau neu hyd yn oed ymestyn y cyfnod lleiaf?

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 6

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	1,204	51%
Nac Ydw	581	24%
Heb benderfynu	595	25%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>2,380</b>	

Rhesymau posibl dros leihau'r cyfnod lleiaf gan gynnwys achosion y mae'r canlynol yn berthnasol:

- cam-drin domestig
- cam-drin plant

- troseddau
- un o'r partion neu'r partner newydd â salwch angheuol
- genedigaeth plentyn ar fin digwydd gyda phartner newydd
- cyd-gytundeb y dylai'r cyfnod gael ei leihau
- trefniadau ariannol neu blant wedi cael eu datrys yn llawn.

Roedd y rheini oedd yn teimlo na ddylid bod yna unrhyw eithriadau yn dadlau y byddai eithriadau yn gwneud y system yn rhy gymhleth ac achosi ansicrwydd. Roedd eraill yn awgrymu y gallai annog pobl i gamddehongli'r sefyllfa neu i wneud honiadau ffug er mwyn cymhwyso am amserlen lai.

Teimlodd rhai ymatebwyr y byddai'n ddiangen i ymestyn y cyfnod lleiaf gan nad yw cyfnod lleiaf yn atal y gweithdrefnau rhag para'n hirach, os oes angen am hynny. Nododd ymatebwyr eraill y rhesymau posibl dros oedi cytuno i'r ysgariad terfynol:

- trefniadau heb eu datrys ar gyfer plant neu arian (yn enwedig os y gwneir gorchmynion ar gyfer trefniadau ariannol)
- materion capasiti a diogelu pobl sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio
- sicrhau y ceir datrysiad crefyddol (fel y darperir ar ei gyfer ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth).

Awgrymodd llawer o staff cyfreithiol proffesiynol i gadw'r hyblygrwydd presennol i'r llys benderfynu mewn achosion eithriadol, un ai i gyflymu neu i oedi'r ysgariad, mewn achosion priodol.

## 7. Ydych chi'n credu y dylai'r cyfnod lleiaf ar gyfer achosion dirymu adlewyrchu'r cyfnod lleiaf diwygiedig mewn achosion ysgaru a diddymu?

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 7

Ymateb	Nifer o ymatebion	Canran
Ydw	542	26%
Nac ydw	542	26%
Heb benderfynu	1,024	49%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>2,108</b>	

Dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod dim am achosion o ddirymu nag yn deall y cwestiwn. Awgrymodd y rheini oedd yn credu y dylai amserlenni dirymu ac ysgariad fod yn gyson y byddai hyn yn creu symlrwydd, er, nododd rhai y byddai angen ystyried dirymaeth ar gyfer priodasau di-rym neu ddirymadwy ar wahân.

Roedd gan y rheini oedd o'r farn y dylai amserlenni dirymu fod yn wahanol arbenigedd ym maes cyfraith dirymu. Roedden nhw'n disgrifio'r gwahanol ystyriaethau cyfreithiol sy'n gwneud unrhyw amserlen estynedig mewn achosion o ysgariad (er mwyn

caniatáu i adlewyrchu a gwneud trefniadau) yn amhriodol mewn achosion o ddirymu. Roedd enghreifftiau'n cynnwys achosion lle nad oedd y briodas erioed yn ddilys neu mewn achos o briodas dan orfod.

## 8. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gael gwared â'r gallu i herio fel rheol gyffredinol?

### Crynodeb o ymatebion i gwestiwn 8

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran
Ydw	484	15%
Nac ydw	2,644	83%
Heb benderfynu	55	2%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>3,183</b>	

Nododd y rheini oedd o blaid cael gwared ar y gallu i herio ysgariad bod angen ar briodas ddau berson sy'n ymrwymo iddi. Eu dadl hwy oedd – os yw un person yn herio'r ysgariad a bod yn person arall ai fryd arno, yna mae hyn ynddo ei hyn yn dangos bod y briodas yn adferadwy. Nododd eraill oedd yn cytuno gyda cael gwared ar y gallu i'w herio yn nodi bod modd ei gamddefnyddio, gan ddweud bod herio yn aml yn cael ei achosi gan ysgogiad maleisus i greu rhwystredigaeth ac oedi, i reoli'r person arall, neu i gydfargeinio o ran trefniadau plant neu arian, yn hytrach na cael ei ddefnyddio i ddangos y dymuniad i barhau i fod yn briod. Roedd hyn o bryder penodol i grwpiau sy'n helpu dioddefwyr cam-drin domestig gan y gall gael ei gamddefnyddio fel ffordd o barhau i gam-drin yn dilyn gwahanu. Nododd y rheini oedd o blaid bod yr effaith negyddol y mae costau, oedi a straen yn ei chael ar yr unigolion ynghyd ag amser y llys ac adnoddau.

Roedd y rheini oedd yn anghytuno â'r cynnig yn dadlau y byddai'n ymddangos yn anghyfiawn os bod un o'r partïon ddim yn cael llais neu'n cael y cyfle i "ymladd dros y briodas". Roedden nhw'n awgrymu y dylai'r gyfraith sicrhau nad oes gan un o'r partïon bŵer unochrog i ddod â'r briodas i ben. Roedd eraill yn teimlo y byddai'r newid hwn yn gwneud ysgariad yn rhy hawdd, gan alluogi encilio annheg a'r risg o les y rheini sydd yn wael, yn dlawd neu'n hen, neu "bartïon diniwed" eraill. Roedd eraill yn erbyn ysgariad yn ei ystyr ehangach gan deimlo y dylai'r partïon allu rhwystro ysgariad, gan eu bod yn ystyried ei fod yn cael effaith negyddol ar deuluoedd.

Roedd rhai pobl yn methu dod i benderfyniad gan awgrymu mae'r gost o amddiffyn ysgariad sy'n gwneud yr opsiwn hwn yn opsiwn nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml iawn, ond byddai llawer yn hoffi gweld honiadau'n cael eu cwestiynu yn cael eu gwneud yn eu herbyn neu bod anghytundeb gyda'r ysgariad yn cael ei nodi. Roedd eraill yn awgrymu bod herio'r ysgariad fel arfer ynghylch honiadau sydd wedi cael eu gwneud i gadarnhau ffeithiau seiliedig ar ymddygiad, ac felly, byddai'n gwneud synnwyr i gael gwared ar y gallu i herio os ceir gwared ar y ffeithiau.

9. [Os mai le oedd yr ateb i gwestiwn 8] A oes unrhyw amgylchiadau eithriadol lle dylai'r ymatebydd allu herio'r ysgariad?

**Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 9**

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran
Oes	130	27%
Nac oes	264	56%
Heb benderfynu	79	17%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>473</b>	

O'r rheini oedd wedi cytuno y dylid cael gwared ar y gallu i herio'r ysgariad, doedd y mwyafrif ddim yn credu y dylai eithriadau fod yn berthnasol i'r gallu i herio'r ysgariad. Ystyriodd lawer bod yr eithriadau a nodwyd yn aml ynghylch arian, mater y mae gan y llys eisoes bwerau digonol i wneud darpariaethau ariannol. Roedd eraill yn dadlau pe byddai un parti o dan anfantais sylweddol yn ariannol, y dylai bod darpariaeth yn ei le i oedi'r gorchymyn terfynol neu'r datganiad absoliwt, yn hytrach na mynd ati i "herio'r" ysgariad, nes bod materion ariannol wedi cael eu datrys.

Nododd y rheini oedd yn credu y dylai rhai eithriadau gael eu defnyddio i un ai atal neu oedi'r ysgariad y dylid hyn gael ei ddefnyddio mewn achosion lle mae pryderon yn cynnwys y canlynol (er hynny, rydym yn nodi bod llawer o'r materion hyn yn ymwneud ag agweddau y mae'r llysoedd yn ymdrin â hwy ar wahân, ac nid ydynt yn ymwneud â herio'r methiant anadferadwy o'r briodas):

- capasiti meddyliol y person sy'n gofyn am ysgariad, neu'r ymatebwr
- awdurdodaeth
- dilysrwydd y briodas
- y person sy'n gofyn am ysgariad yn dioddef gorfodaeth
- sefyllfa o galedi ariannol eithriadol neu'r unigolyn yn agored i niwed
- rhesymau crefyddol neu ddiwylliannol dros oedi nes bod y gofynion crefyddol wedi cael eu diwallu
- problem gyda mewnfudo os y dibynnir ar fisa priodi i aros yn y wlad

**10. A ydych chi'n cytuno y dylai'r gwaharddiad ar ddeisebu am ysgariad ym mlwyddyn gyntaf y briodas barhau?**

**Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 10**

Ymateb	Nifer yr ymatebion	Canran
Ydw	2,685	89%
Nac ydw	259	9%
Heb benderfynu	75	2%
<b>Cyfanswm yr ymatebion:</b>	<b>3,019</b>	

Roedd yna gonsensws cyffredinol o gefnogaeth dros gadw'r gwahaniad ar ysgaru o fewn y flwyddyn gyntaf o'r briodas. Nododd y rheini oedd yn cytuno y byddai hyn yn helpu i sylweddoli bod priodas yn ddewis difrifol ac y dylid mynd ymlaen â phriodas gyda lefel sylweddol o ymrwymiad. Nododd rhai bod priodas yn aml yn ymwneud â chyfnod o ymgynefino ac y dylai cyplau gael cymorth i roi cyfle i'r briodas setlo. Nododd eraill y gallai helpu i leihau priodasau ffug.

Roedd yr eithriadau a awgrymwyd yn cynnwys achosion lle roedd y briodas yn ymwneud â chamdriniaeth domestig neu galedi ariannol difrifol, neu lle roedd un o'r partion wedi cael eu gorfodi neu eu twyllo i briodi (er, fe nodwn, mewn achosion o briodas dan orfod, mae hi'n bosibl i gael y briodas wedi'i dirymu ac nid oes yna unrhyw rwystr am ddirymiad ym mlwyddyn gyntaf y briodas).

Nododd y rheini oedd yn teimlo y dylid cael gwared ar y rhwystr y dylai pobl gael y rhyddid i briodi ac ysgaru pan maen nhw'n dewis gwneud hynny. Fe wnaethant nodi bob pobl yn gwneud camgymeriadau a dylen nhw gael y cyfle i'w hunioni yn gyflym. Nododd eraill bod y rhwystr yn perthyn i gyfnod arall pan nad oedd y rhan fwyaf o gyplau'n cyd-fyw cyn iddynt briodi.

**11. A oes gennych unrhyw sylw i'w wneud am y cynnig i gadw'r gofynion hyn neu unrhyw ofynion eraill?**

Roedd y gofynion a nodwyd yn bwerau Proctor y Frenhines er mwyn "dangos rheswm" yn erbyn troi dyfarniad nisi yn ddyfarniad terfynol; pŵer y llys i wneud rheolau sy'n disgwyl i ymarferwyr cyfreithiol i dystio eu bod wedi trafod y posibilrwydd o gymodi; pŵer y llys i oedi'r gweithdrefnau os oes yna bosibilrwydd o gymodi.

Awgrymodd rhai ymatebwyr o fewn y sector cyfraith teulu y dylai'r gofyniad i dystio a yw'r partion wedi trafod y posibilrwydd o gymodi yn aneffeithiol ac nad oes unrhyw bwrpas ymarferol arall iddo. Nododd eraill bod hwn yn ddarpariaeth defnyddiol i sicrhau bod cymodi yn cael ei ystyried yn ystod pob cam ac y dylid ei ymestyn i'r rheini sydd heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

**Dywed eraill** – er ei bod hi'n bosibl bod angen i ni leihau gwrthdaro teuluol, nid yw'n ddigonol. Byddai angen newidiadau ehangach o fewn y gofod ysgaru a gwahanu, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth a chwmsela perthnasau, er mwyn lleihau ymhellach unrhyw wrthdaro i blant. Roedd awgrymiadau'n cynnwys help yn

gynnar i gyplau priod cyn iddyn nhw gyrraedd y pwynt o geisio ysgariad, ynghyd â pharatoi ar gyfer priodas ac addysgu plant am bwysigrwydd perthnasau o ansawdd. Nododd ymatebwyr eraill na fyddai gweithdrefnau cysylltiol, fel trefniadau ariannol a phlant, yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn ac y gallant, ar eu pen eu hunain, achosi gwrthdaro.

Codwyd **pryderon technegol** ynghylch gofynion gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ac i egluro beth fyddai'r broses os nad yw'n hysbys beth yw lleoliad y parti. Roedd pryderon eraill ynghylch prosesau yn cynnwys eglurder o'r gofynion mewn ffurfioli a systemau ar-lein, a phryderon ynghylch cael ysgariad yn seiliedig ar ffi'r llys.

---

12. **Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno rhagor o ddata a gwybodaeth i'n helpu i ddiweddarau ein hasesiadau cyntaf o'r effeithiau a'n hasesiad o effaith ar gydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad.**

Dyma rai effeithiau positif posibl:

- gwella cydraddoldeb ar sail tueddfryd rhywiol, gan fod y diffiniad presennol o odinebu yn benodol i rywedd y rheini y mae'n ymwneud ag ef
- gwella'r lles meddyliol ac emosiynol y rheini sy'n ysgaru, gan ganiatáu iddyn nhw symud ymlaen heb roi bai ar unrhyw un
- symleiddio'r broses a gwella'r cydraddoldeb rhwng y partion er gwaethaf y gallu i fforddio cyfreithiwr, o fewn y potensial ar gyfer costau llai sy'n gysylltiedig â chynghor cyfreithiol
- ei gwneud hi'n haws i gael at wasanaethau

Dyma rai effeithiau negatiff posibl:

- caniatáu i ysgariad barhau yn erbyn dymuniadau un parti gan arwain at gefnu ar briod sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheini sy'n hŷn, yn anabl neu sydd mewn sefyllfa ariannol llai ffafriol
- y posibilrwydd o gynnydd yn nifer y rhai sy'n ysgaru os yw'r newidiadau'n arwain at lai o statws i briodas. Roedd hyn yn aml yn cael ei ddisgrifio ynghyd â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae priodas yn ei gael ar ganfyddiadau plant a chanlyniadau cymdeithasol ehangach.

## Atodiad B: Rhestr yr ymatebwyr

Mae'r tabl isod yn amlinellu pwy ymatebodd i'r cwestiynau yn y papur ymgynghori.

Math o ymatebwr	Nifer yr ymatebwyr	Canran
Y cyhoedd	2,916	86.5%
Ymarferwr cyfraith teulu	239	7.1%
Arweinydd crefyddol	147	4.4%
Sefydliad	45	1.3%
Academig	20	0.6%
Aelod seneddol	5	0.1%
Cyfanswm yr ymatebion:	3,372	

Mae'r rhestr canlynol o ymarferwyr cyfraith teulu a grwpiau eraill yn cynnwys y rheini a ymatebodd i gwestiynau'r ymgynghoriad (ac sy'n cael eu cyfrif yn y tabl uchod) a'r rheini a ddarparodd sylwadau eraill.

### Ymarferwyr cyfraith teulu

- Association of Her Majesty's District Judges
- Association of Women Solicitors London
- Bar Council
- Birmingham Law Society
- Cafcass (Child and Family Court Advisory and Support Service)
- Centre for Child and Family Law Reform (His Honour Michael Horowitz QC)
- Chartered Institute for Legal Executives
- Family Law Bar Association (FLBA)
- Family Mediation Council
- Family Mediation Matters
- Law Society
- National Association of Child Contact Centres
- National Family Mediation
- Resolution

### Grwpiau eraill sydd â diddordeb proffesiynol neu gymdeithasol

- Amicable
- Archbishops' Council of the Church of England

- Board of Deputies of British Jews
- CARE (Christian Action Research and Education)
- Care for the Family
- Catholic Bishops' Conference of England and Wales
- Centre for Social Justice
- Christian Concern
- Christian Democratic Party
- Christian Institute
- Christian Medical Fellowship
- Christian People's Alliance
- Church in Wales
- Coalition for Marriage
- Families Need Fathers
- Family Education Trust
- Family Federation for World Peace and Unification
- Gospel Standards Societies
- Marriage Foundation
- Mosaic Lives Ltd
- Muslim Women's Network UK
- OnePlusOne
- Oxford Centre for Religion and Public Life
- Parenting Together
- People Matter
- Relate
- Rights of Women
- Support 4 the Family in UKIP
- Tavistock Relationships
- The Divorce Surgery
- Voice for Justice UK
- Welsh Women's Aid
- Wesleyan Reform Union of Churches
- Women's Aid



CCS0219600162

978-1-5286-1043-8